

Bundle Health Board - Welsh 26 May 2022

- 1 MATERION AGORIADOL
- 1.1 22/103 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb – Mark Polin
- 1.3 22/104 Straeon Cleifion / Staff - Gill Harris
22.104 - CYM - FINAL - Patient Story - Mrs W's Story.docx
- 1.4 22/105 Datganiadau o Fuddiant
- 1.5 22/106 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar y 10fed a'r 30ain o Fawrth, er cywirdeb
- 1.5.1 22/107 Materion yn Codi a Chofnod Cryno o'r Camau Gweithredu – i'w hadolygu
- 1.6 22/109 Adroddiad y Cadeirydd – Mark Polin
22.116a - Chair's Assurance Report PFIGC 28.4.22 v1.0 CYMRAEG.docx
22.116c - SRG Advisory Group Chairs Report to the Board 07.03.22 V1.00 Final (cym).doc
22.116d - HPF Chair's Report Health Board May 2022 CYM V1.0.doc
22.116f - Chair's Assurance report Audit 15.03.22_ V0.01 English.docx
Chair's Assurance Report TIIF Steering Group 03.05.22 v1.00 Final (cym).docx
Chair's Assurance Report TIIF Steering Group 22.02.22 v1.00 Final (cym).docx
Chair's Assurance Report TIIF Steering Group 29.03.22 v1.00 Final (cym).docx
- 1.7 22/110 Adroddiad y Prif Weithredwr - Er Sicrwydd – Jo Whitehead
- 1.8 22/111 Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu – I'w Gymeradwyo
- 1.9 22/112 Diweddariad Covid-19 a Pharodrzydd Ymholiad - Er Sicrwydd - Gill Harris
- 1.10 22/113 - EITEM AR GYFER CYDSYNIAD Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2008. Diweddaru'r Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru a Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Nick Lyons
22.113 - AC S12 Board Report FV Approved - May 2022 - Cym.docx
- 2 EITEMAU STRATEGOL I'W PENDERFYNU – Y DYFODOL
- 2.1 DATBLYGU STRATEGAETHAU NEU GYNLLUNIAU NEWYDD
- 2.1.1 22/114 Seilwaith Gweithredu Model Gweithredu - I'w Gymeradwyo - Sue Green
- 2.1.2 22/115 Strategaeth a Chynllun Pobl – I'w Cymeradwyo – Sue Green
- 2.2 MONITRO STRATEGAETHAU NEU GYNLLUNIAU PRESENNOL
- 3 ANSAWDD, DIOGELWCH A PHERFFORMIAD - Y PRESENNOL
- 3.1 22/116 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori - Er Sicrwydd/Penderfyniad Cadeiryddion y Pwyllgor i dynnu sylw at unrhyw faterion a gyfeiriwyd at y Bwrdd
a • Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (John Cunliffe)
b • Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (Jackie Hughes)
c • Grp Cyfeirio Rhanddeiliaid (Clare Budden)
d • Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (Jane Wild)
e • Pwyllgor Archwilio (Medwyn Hughes)
- 3.2 22/117 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad – Er Sicrwydd - Sue Hill
22.117 - Coversheet - QP Report for HB - May 2022 (March 2022 position) FINAL Cymraeg.docx
- 3.3 22/118 Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Gweithredol – Er Sicrwydd – Sue Hill
22.118 - Coversheet OPMR for HB - 26052022 Cymraeg FINAL.docx
- 3.4 22/119 Adroddiad Cyllid – Er Sicrwydd - Sue Hill
22.119 - Finance Report Cym.docx
- 3.5 22/120 Gwasanaethau Fasgwlaidd – Er Sicrwydd – Nick Lyons
22.120 - CYM - Board and Committee Report Vascular Services 28 day plan V3 17052022.docx
- 3.6 22/121 Adroddiad Amlygu Ansawdd - Er Sicrwydd - Gaynor Thomason
22.121 - cym-FINAL - Quality Highlight Report.docx
- 4 ADRODDIADAU BLYNYDDOL
- 5 MATERION I GLOI
- 5.1 22/122 Adolygu'r Risgiau y Tynnwyd Sylw atynt yn y Cyfarfod

- 5.2 22/123 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod
- 5.3 22/124 Cwestiynau Fforwm Cyhoeddus
- 5.4 22/125 Crynodeb o Fusnes Preifat y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus - Molly Marcu
- 5.5 22/126 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - 21 Gorffennaf 2022
- 5.6 22/127 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."
- 6.3.2 22/132 Nodiadau Briffio Aelodau
- 6.4 22/133 SOC Iechyd a Llesiant Bangor - Mark Wilkinson/Sue Hill



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Stori'r Claf - Mrs W						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Gaynor Thomason, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd Dros Dro						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd Dros Dro Carolyn Owen, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad Cleifion a Gofalwyr Dros Dro Rachel Wright, Arweinydd Profiad Cleifion a Gofalwyr						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Gaynor Thomason, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd Dros Dro						
Atodiadau Appendices:	Stori'r Claf - Mrs W						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd dderbyn ac ystyried stori'r claf.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad/ cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance		Er gwybodaeth For Information	Y
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Stori'r Claf

Stori'r Claf - Mrs W

Bydd fideo o'r stori yn cael ei chwarae yn ystod y cyfarfod

Trosolwg o Stori'r Claf - Mrs W

"Roedd yn rhaid i mi fynd i Adran yr Ên a'r Wyneb yn Ysbyty Glan Clwyd i gael tynnu nam ar groen yr wyneb. Roeddwn i'n nerfus iawn ynghylch cael y driniaeth a byddwn wedi elwa'n fawr o gael rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig i egluro'r hyn y gallwn ei ddisgwyl o'r driniaeth, lefel y creithio y gallwn ddisgwyl ei gweld a'r llwybr ôl-ofal gorau i atal unrhyw greithiau ar yr wyneb.

Penderfynais wneud fy ngwaith ymchwil fy hun ar y rhyngwrwyd ac yn fuan iawn llwyddais i ddod o hyd i lawer o ddogfennau â gwybodaeth i gleifion a baratowyd gan ysbytai eraill gyda chyngor ar beth fyddai tynnu nam ar groen yr wyneb yn ei olygu, ynghyd â chyngor ynghylch yr ôl-ofal gorau ar gyfer clwyfau ar yr wyneb er mwyn atal creithio. Fe wnes i lwytho'r dogfennau hyn i lawr oddi ar y rhyngwrwyd, eu darllen yn ofalus ac fe wnaethon nhw fy helpu i'n fawr. Dilynais y cyngor ac rwy'n fodlon iawn â'r ffordd y gwnaeth fy nghlwyf wella o ganlyniad i hynny.

Fy nymuniad yw gweld Adran yr Ên a'r Wyneb yn adolygu'i darpariaeth o wybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn ymwneud â llawdriniaeth fel tynnu nam ar yr wyneb, er mwyn helpu cleifion yn y dyfodol sy'n poeni am y llawdriniaeth ac unrhyw greithiau all ddigwydd yn sgil hynny."

Crynodeb o ddysgu a gwelliannau

Rhannwyd y stori hon gyda staff Adran yr Ên a'r Wyneb a'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr.

Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd Iechyd (BIPBC) i ddarparu gwybodaeth o ansawdd, gan lynu wrth ddeddfwriaeth a gofynion statudol wrth baratoi unrhyw fath o wybodaeth i gleifion boed ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei datblygu ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr er mwyn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac ymgysylltu â phob agwedd ar eu gofal. Mae darparu gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch i gleifion yn grymuso'r claf, ac yn ei alluogi i gydnabod ei ofynion ei hun a chymryd rhan mewn triniaethau priodol.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi arwain gwaith i wella ansawdd yr wybodaeth i gleifion, ac mae wedi paratoi canllawiau gweithredu i symleiddio'r gwaith o gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion, gan sicrhau bod gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel ar gael i bob claf, defnyddiwr gwasanaeth a'u gofalwyr. Fel rhan o'r canllawiau gweithredu, mae holl daflenni gwybodaeth ysgrifenedig y Bwrdd Iechyd i gleifion yn cael eu hadolygu drwy Banel o Ddarllenwyr Gwybodaeth i Gleifion sy'n cynnwys staff a chynrychiolwyr cleifion.

Rhannodd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr stori'r claf, Mrs W, ag Adran yr Ên a'r Wyneb, a ymatebodd yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y ffilm. Eglurwyd y byddai cleifion, cyn Covid-19, yn mynd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn y llawdriniaeth, lle bydden nhw'n cael taflen wybodaeth i gleifion yn ymdrin â'r driniaeth roedden nhw am ei chael. Mewn ymateb i Covid-19, mae Adran yr Ên a'r Wyneb wedi lleihau nifer y cleifion sy'n dod i mewn i'r ysbyty, sy'n golygu bod yn rhaid cynnal pob ymgynghoriad, gan gynnwys ymgynghoriadau cyn y llawdriniaeth, dros y ffôn. Mae'r newid hwn yn y broses ymgynghori wedi golygu nad yw cleifion yn cael yr wybodaeth ysgrifenedig am eu llawdriniaeth y byddent wedi'i chael yn flaenorol yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb.

Mae Adran yr Ên a'r Wyneb wedi cadarnhau bod y gwelliannau canlynol wedi cael eu gwneud ers profiad Mrs W o lawdriniaeth gên ac wyneb:

- Ers i Mrs W gael ei llawdriniaeth, mae pob un o'r taflenni gên ac wyneb sy'n ymdrin â'r cyfnod cyn y llawdriniaeth wedi'u hadolygu gan Banel o Ddarllenwyr Gwybodaeth i Gleifion BIPBC ac maen nhw bellach ar gael.
- Mae gwybodaeth am y cyfnod cyn y llawdriniaeth ac ar ôl y llawdriniaeth bellach yn cael ei rhoi ar lafar ac ar bapur i gleifion. Mae Adran yr Ên a'r Wyneb yn deall weithiau nad yw'r wybodaeth hon o reidrwydd yn "treiddio i'r cof" pan fydd claf yn teimlo dan lawer iawn o straen neu wedi'i lethu gan y sefyllfa. Gyda hyn mewn golwg, er mwyn hwyluso dealltwriaeth cleifion, mae'r adran wedi osgoi defnyddio unrhyw esboniadau cymhleth neu rhy fanwl ac wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn cael ei pharatoi mewn iaith sy'n hygyrch i bob claf. Os oes gan gleifion unrhyw gwestiynau neu bryderon pellach ynghylch yr wybodaeth a gawsant, fe'u hanogir i gysylltu â'r gwasanaeth. Mae Adran yr Ên a'r Wyneb ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9 a 5 o'r gloch ac mae rhif ffôn y tu allan i oriau i gleifion ei ffonio os oes ganddynt unrhyw bryderon.
- Mae Adran yr Ên a'r Wyneb yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodeg i weld a oes modd anfon taflenni gwybodaeth cyn y llawdriniaeth ar yr un pryd â'r llythyr apwyntiad, er mwyn i gleifion gael cyfle i ddarllen a deall yr wybodaeth pan fyddant yn teimlo dan lai o straen neu ddim wedi'u lethu gan y sefyllfa.
- Yn ddiweddar, mae Meddyg Iau wedi cynnal arolwg tair wythnos o gleifion yr Ên a'r wyneb ar ôl iddynt gael llawdriniaeth i asesu pa mor fodlon ydynt â'r wybodaeth a roddwyd iddynt ar ôl y llawdriniaeth. Gofynnwyd i'r cleifion a oeddent yn deall yr wybodaeth a gawsant ac a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ynghylch eu hôl-ofal. Bydd canfyddiadau'r arolwg hwn yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfod llywodraethu clinigol yr Ên a'r wyneb nesaf.
- Bydd y canfyddiadau a'r gwersi a ddysgir o'r arolwg diweddar o'r cyfnod ar ôl y llawdriniaeth yn helpu wrth adolygu'r taflenni gwybodaeth ar gyfer y cyfnod ar ôl y llawdriniaeth.
- Ar hyn o bryd mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio gydag Adran yr Ên a'r Wyneb i adolygu'r holl daflenni ar gyfer y cyfnod ar ôl y llawdriniaeth sydd ar gael a allai fod yn berthnasol i'w cleifion, ac y gallai BIPBC eu defnyddio i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu mabwysiadu. Bydd y broses hon yn cynnwys ymchwil i weld a oes unrhyw daflenni perthnasol yn cael eu cynhyrchu gan

sefydliadau cymeradwy, megis Cymdeithas Brydeinig Llawfeddygon Gêl ac Wyneb.

- Mae Adran yr Ên a'r Wyneb yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth am SharePoint (mewnrwyd newydd BetsiNet) i staff gael mynediad ati. Ar hyn o bryd, maent yn archwilio'r ddarpariaeth o daflenni gwybodaeth ar gyfer y cyfnod cyn ac ar ôl y llawdriniaeth ar y rhyngrwyd er mwyn i gleifion allu cael gafael arnynt.
- Roedd Mrs W yn hapus â'r driniaeth a'r gofal a dderbyniodd gan Adran yr Ên a'r Wyneb. Dangosodd hynny drwy anfon cerdyn.
- Yn ogystal â chyfarfodydd misol y Panel o Ddarllenwyr Gwybodaeth i Gleifion, lle mae deg taflen ar gyfartaledd yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod, mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi dechrau ymgymryd ag ymarfer mapio er mwyn canfod faint o daflenni gwybodaeth i gleifion a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Iechyd y mae angen eu hadolygu. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio gydag Adran Achosion Brys Ysbyty Wrecsam Maelor, y Gwasanaeth Fasgwlaidd a'r Ên a'r Wyneb i sicrhau bod pob un o'u taflenni'n cael eu hadolygu yn ystod y broses hon.
- Bydd y Rheolwr Arweiniol Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio gyda'r staff i godi ymwybyddiaeth o'r rôl a phwysigrwyd y taflenni gwybodaeth i gleifion.
- Bydd stori'r claf, Mrs W, yn cael ei rhannu yng nghyfarfod nesaf y Panel o Ddarllenwyr Gwybodaeth i Gleifion ar 1 Mehefin 2022.

Bydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn rhannu'r adborth hwn ac yn gofyn am sicrwydd gan yr adrannau ar ffurf tystiolaeth bod y newidiadau wedi cael eu gwneud.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i Mrs W am rannu ei phrofiad.

Bwrdd Iechyd
26.5.22



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

Enw'r Pwyllgor:	Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad y cyfarfod:	28.4.22
Enw'r Cadeirydd:	John Cunliffe Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Sue Hill Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	Roedd y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol <i>cymradwyo</i> • Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth • Cynllun gwaith blynyddol 2022/23 <i>Cytunwyd</i> • Cynnwys mesurau perfformiad yn y broses o gyflwyno adroddiad Ansawdd a Pherfformiad yn ei fformat newydd ac ystyried unrhyw newidiadau bob chwarter <i>nodi</i> • Y diweddaraaf am Drawsnewid Gwasanaethau • Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad • Adroddiad monitro diwedd blwyddyn y Cynllun Gweithredu • Adroddiad Cyfalaf Mis 12 • Adroddiad Cyllid Mis 12 • Adroddiad sicrwydd Contractau Allanol • Y diweddaraaf am ofal wedi'i drefnu • Y diweddaraaf am ofal heb ei drefnu • Traciwr Busnes • Asesiad Strwythuredig – adroddiad ar agweddau ariannol <i>adolygu</i> • Cylch Gorchwyl yr oedd angen ei drafod ymhellach ynghylch presenoldeb Bu'r pwyllgor yn ystyried y materion canlynol mewn sesiwn breifat: <i>cymradwyo</i> • Estyniadau i fframweithiau ymgynghorwyr adeiladu lleol • Dyfarnu contractau i dimau dylunio i ddarparu dyluniad cysyniadol ar gam 1 rhaglen y Ganolfan Driniaeth Ranbarthol

	• Rhentu swyddfeydd ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru a gwaredu asedau adeilad i wneud lle i'r tîm Niwroddatblygu
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	Roedd y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol • llongyfarch y tîm cyllid a'r arweinyddiaeth am sicrhau sefyllfa gwarged o £0.3m ar ddiwedd y flwyddyn, yr ail flwyddyn yn olynol roedd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sicrhau gwarged ariannol bach • llongyfarch tîm y rhaglen gyfalaf a'r arweinyddiaeth am gyflawni'r Terfyn Adnoddau Cyfalaf mewn blwyddyn heriol iawn ar ôl cael cyllid cyfalaf ychwanegol yn agos at ddiwedd y flwyddyn • cael sicrwydd bod contractau allanol cadarn ar waith ac yn cael eu monitro, gyda gwerth dros £360m • yn falch o dderbyn diweddariad ar sut y byddai fformat gwell a dadansoddiad mwy cadarn o ddata perfformiad yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol agos. • yn galonogol bod cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol wedi gwella i 84% • wedi cael gwybod er bod y perfformiad Canser wedi aros y gorau yng Nghymru, bod rhagor o welliannau i'w gwneud • wedi cael sicrwydd bod llawer o recriwtio i swyddi nyrsio heb eu cofrestru wedi llwyddo i gefnogi Gofal heb ei Drefnu • canmol yr adborth cadarnhaol gan Archwilio Cymru o ran elfen ariannol yr Asesiad Strwythuredig blynyddol
Risgiau allweddol, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	• Roedd materion recriwtio yn parhau i fod yn thema • Mae heriau gofal wedi'i drefnu yn dal i fodoli ar draws Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth i'r gweithgareddau ailddechrau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau. • Codwyd pryderon ynghylch sut roedd y Bwrdd yn cael gwybod am ddiffyg cydymffurfio statudol mewn perthynas ag amodau Ystadau a Llywodraethu Gwybodaeth. Bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach y tu allan i'r cyfarfod. • Er y bu cynnydd sylweddol mewn costau ar wahân i gyflog (hy gwariant ar danwydd), roedd cyllid o Gyflogau wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y balans (hy cyllidebau heb recriwtio) • Roedd gwariant asiantaethau wedi cynyddu tra bo defnyddio/gwariant ar staff banc wedi disgyn. Roedd yn destun pryder bod rhai o'r gweithlu'n symud i rolau asiantaeth sy'n talu'n well ac yn effeithio ar gostau staffio dros dro. Mae hon yn broblem genedlaethol ac mae Gweithlu yn monitro hyn, yn enwedig gan y bu'n rhaid defnyddio staff ychwanegol i lenwi'r bylchau oherwydd absenoldeb salwch Covid19. • Roedd pryder o hyd bod cydbwysedd yr arbedion wedi'i gyflawni ar sail anghylchol. Bydd arbedion trawsnewid yn cael eu datblygu wrth i gyfyngiadau'r pandemig leihau. Nodwyd y bydd Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol ac arbedion Ysbyty Glan Clwyd dros y flwyddyn ariannol nesaf. • Gofynnwyd am ragor o fanylion am risgiau gyda chontractau allanol a sut byddai'r effeithiau'n cael eu rheoli mewn adroddiadau yn y dyfodol

	• Roedd gan y Pwyllgor bryderon sylweddol mewn perthynas â pherfformiad gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu, ond mae'r ddau wasanaeth eisoes yn cymryd nifer o gamau adfer ac mae prosesau newydd yn cael eu cyflwyno a'u monitro'n weithredol. Mae sefydliadau allanol hefyd yn darparu cymorth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. • Mae rheoli rhestrau aros cleifion yn dal yn faes blaenoriaeth sy'n cael sylw gan roi sylw dyledus i flaenoriaethau cleifion yn glinigol
Deliwyd â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant)
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgysfeirio i'r Bwrdd:	Roedd y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol • canmol y tîm cyllid am ddarparu gwarged ar ddiwedd y flwyddyn, a'r tîm cyfalaf am gyflawni'r Terfyn Adnoddau Cyfalaf mewn blwyddyn heriol iawn • mynegi pryder ynghylch ▪ dirywiad sylweddol yn y gwasanaeth strôc a ddarperir ▪ perfformiad parhaus o ran gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Rhoddodd y Pwyllgor sylw dyledus i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy canlynol: ▪ Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol; ▪ Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion; ▪ Cynnwys y rhai sydd â buddiant, a gofyn am eu barn; ▪ Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethgu;
Materion arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o adroddiadau ariannol a pherfformiad gan gynnwys ▪ Fformat newydd yr adroddiad Ansawdd a Pherfformiad ▪ Strategaeth Ariannol Gorfforaethol ▪ Parhad Busnes ▪ Rhaglen trawsnewid ▪ Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ▪ Adroddiad Cyllid Adrannol – Canol ▪ Adroddiad DPA Llywodraethu Gwybodaeth ▪ Adroddiad Partneriaeth Cydwasanaethau ▪ Pecyn Asesu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth ▪ Cael ôl-drafodaeth ynghylch IMTP ac amserlen y Gyllideb
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	30.6.22

Bwrdd Iechyd  Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board <i>Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol</i>	
Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyngtori	
Enw'r Grŵp Cyngtori:	Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Dyddiad y cyfarfod:	07.03.22
Enw'r Cadeirydd:	Clare Budden, Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd:	• Drafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor • Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor • Adolygiad Blynyddol o'r Cylch Busnes • Diweddariad ar y Trydydd Sector • Y diweddaraaf am Ganolfannau Triniaeth Rhanbarthol
Adborth / cyngor allweddol i'r Bwrdd:	• Awgrymwyd y byddai adborth dwy ffordd yn ddefnyddiol i'r grŵp ac y byddai'n dod yn eitem safonol ar yr agenda i ganiatáu i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ddarparu adborth gan y Bwrdd. • Cytunodd y Cadeirydd i siarad â Chadeirydd y Bwrdd ynghylch presenoldeb y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau'r presenoldeb gorau posibl. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r cynrychiolydd ddarparu adborth gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i'r Bwrdd mewn perthynas â meysydd penodol. • Cafwyd trafodaeth ar lefelau presenoldeb a'r angen i ddeall pam fod rhai aelodau'n mynychu'n anaml a beth y gallai fod angen ei newid er mwyn sicrhau mwy o ymwneud. Hefyd, trafododd y grŵp a oedd cynrychiolaeth lawn o bob cymuned a grŵp lleiafrifol ar draws Gogledd Cymru a chytunodd i drafod hyn ymhellach. • Cafodd y grŵp amryw o drafodaethau ynghylch y cylch busnes a chytunwyd ar ystod eang o feysydd i'w hystyried, gan gynnwys mynediad at feddygon teulu, mynediad i Adrannau Achosion Brys, cael pobl allan o'r ysbyty, problemau iechyd meddwl ymysg pobl iau ac adrodd ar berfformiad.

	• Roedd y grŵp yn croesawu diweddariad y trydydd sector a oedd yn tynnu sylw at ymholiad ynghylch sut mae'r gwaith yn defnyddio'r ystod ehangaf o sefydliadau llai ac nid dim ond y sefydliadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda nhw'n rheolaidd. • Roedd y grŵp hefyd yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am y canolfannau triniaeth rhanbarthol, y cynnydd hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. • Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod cynnar wyneb yn wyneb.
Rhoi sylw i Barth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad • Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) • Ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)
Materion arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Partneriaethau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn adolygu'r cylch busnes presennol a'r eitemau penodol a fyddai'n darparu trafodaeth a mewnbwn defnyddiol gan y grŵp. Bydd yr eitemau penodol ar gyfer yr agenda yn cael eu dewis yn nes at amser y cyfarfod nesaf.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Dydd Llun 6 ^{fed} Mehefin 2022

Datgeliad:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Templed Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyngori F6.0 Mai 2021

Bwrdd Iechyd
26ain Mai 2022



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwella iechyd a darparu gofal ardderchog

Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyngori

Enw'r Grŵp Cyngori:	Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (FfGPGI)
Dyddiad cyfarfod:	y 4ydd Mawrth 2022
Enw'r Cadeirydd:	Mandy Jones, Is-gadeirydd a Chynrychiolydd Nyrsio (Is-gadeirydd)
Cyfarwyddwr sy'n Gyfrifol:	Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddor Iechyd
Crynodeb o'r eitemau allweddol a drafodwyd:	H22/01 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau H22/01.1 Agorodd Gareth Evans y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau hynny a oedd yn bresennol. Roedd yn dymuno egluro nifer o newidiadau oherwydd yr amgylchiadau presennol. Ers ei benodiad yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd o 1^{af} Mawrth 2022, bydd yn awr yn cymryd y swydd o Arweinydd Gweithredol y FfGPGI yn absenoldeb parhaus Adrian Thomas. O ganlyniad, ni fydd mwyach yn gallu parhau ar y FfGPGI fel Cadeirydd nac yn aelod cynrychioliadol o'r Gwasanaethau Therapi. Roedd y broses o benodi Cadeirydd newydd wedi cychwyn yn flaenorol gan fod tymor Gareth Evans yn y swydd o Gadeirydd y FfGPGI yn ffurfiol ar fin dod i ben ar ddechrau mis Ebrill. Mae hyn yn awr wedi dod i ben, ac o ganlyniad cyhoeddodd GE fod Jane Wild wedi'i phenodi yn Gadeirydd Etholedig cyn derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog ymhen amser. Parthed y cyfarfod heddiw, cytunwyd y byddai Mandy Jones, yr Is-gadeirydd yn fodlon iawn i gadeirio'r cyfarfod o eitem rhif H22/02 ymlaen. H22/01.2 Roedd Gareth Evans yn dymuno diolch ar ran y FfGPGI, a'i ddiolchiadau personol i Dr Jay Nankani, y bydd ei ail dymor fel aelod yn dod i ben ar ddechrau mis Mai. Nododd y Cadeirydd gynrychiolaeth ac ymrwymiad Dr Nankani fel aelod meddygol Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol, sydd wedi cyfrannu yn hael ac yn gyson i'r Fforwm yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf. Bydd y broses i chwilio am gynrychiolydd yn ei le yn awr yn dechrau.

H22/01.3 Diolchodd yr Is-gadeirydd Mandy Jones i Gareth Evans am Gadeirio'r Fforwm yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, yn arbennig felly gyda'r pwysau ychwanegol yn ystod pandemig y Covid.

H22/01.4 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:

Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Gofal Iechyd (Arweinydd)

Dr Faye Graver, Cynrychiolydd Meddygol Iechyd Meddwl

Susan Murphy, Cynrychiolydd y Fferyllfa a Rheoli Meddyginiaethau

H22/05 Strategaeth Ansawdd a Diweddariad Ansawdd – Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro ar gyfer Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Phrofiad

Croesawodd yr Is-gadeirydd Matthew Joyes (MJ) i'r Fforwm ar gyfer y drafodaeth flynyddol ynglŷn â'r diweddariad ar y Strategaeth Ansawdd. Yn ystod y cyfarfod, dangosodd MJ sleidiau cyflwyno, a fydd yn cael eu dangos i aelodau'r fforwm ar ôl y cyfarfod.

Amlinellodd MJ grynodedb o'r darnau gwaith allweddol trwy'r sefydliad ynglŷn ag Ansawdd yn ystod y 12 mis diwethaf, ynghyd ag edrych ymlaen at y 12 mis nesaf sydd wedi cael ei gynllunio. Yna, canolbwyntiodd MJ ar Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) (Cymru), a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2020, yn arbennig felly'r canllawiau drafft mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, sydd ar fin cael ei gweithredu yn ystod gwanwyn 2023 fel rhan o'r Ddeddf.

Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb, gydag aelodau'r Fforwm yn cytuno yn arbennig bod cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer aelodau'r staff sy'n ymwneud â llythyrau ymddiheuro yn bwysig iawn er mwyn canfod y cydbwysedd cywir. Awgrymwyd y gallai aelodau'r Fforwm gynnig sefydlu gweithdy wedi'i seilio ar senarios er mwyn rhoi'r hyfforddiant ar brawf unwaith y bydd wedi cael ei baratoi, er mwyn cynnig adborth ac awgrymiadau pellach cyn ei gyflwyno.

Diolchodd yr Is-gadeirydd yn fawr iawn i Matthew am y trosolwg cynhwysfawr a'r cyfle i drafod. Fel y Cadeirydd newydd, nodwyd y byddai JW yn penderfynu ar gyfarfod dilynol gydag ef ynglŷn â'r mater hwn.

H22/07 Crynodeb o Adroddiadau'r Cadeirydd a'r aelodau:

H22/07.1 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Cadeirydd a Gwasanaethau Therapi

H22/07.2 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Fferyllfa Gymunedol

H22/07.3 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_GGI

	H22/07.4 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_IMAD H22/07.5 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Optometreg H22/07.6 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Is-gadeirydd a Nyrsio H22/07.7 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Gwasanaethau Merched H22/07.8 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Gofal Sylfaenol a Chymunedol H22/07.9 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Gofal Arbenigol a Thrydyddol H22/07.10 Adroddiad Cryno Aelod FfGPGI_Deintyddiaeth H22/08 Strategaeth Iechyd Meddwl – Iain Wilkie, Cyfarwyddwr Interim Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu; a Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Croesawodd y Cadeirydd Iain Wilkie (IW) a Teresa Owen (TO) a chyflwynodd aelodau'r Fforwm a oedd yn bresennol eu hunain. Dangosodd IW sleidiau cyflwyno, gan gynnwys amlinelliad ffeithlun o'r weledigaeth, y genhadaeth a'r canlyniadau a ddymunir o'r cynllun strategol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu 2021-23 a oedd yn cynnwys pump o gydrannau. Yn benodol, y blaenoriaethau presennol yw adolygu capasiti a chyflawni gwasanaethau yn ddiogel ac effeithiol a'r heriau presennol o fewn yr isadran. Ar ôl y cyflwyniad, cafwyd sesiwn holi ac ateb. Diolchodd yr Is-gadeirydd yn fawr iawn i IW a TO am ymuno â'r Fforwm ac am y cyflwyniad a oedd yn llawn gwybodaeth.
Cyngor/adborth allweddol ar gyfer y Bwrdd:	H22/10 Crynodeb o wybodaeth i'w gynnwys yn adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd • Derbyniodd y Fforwm Matthew Joyes (MJ) i'r fforwm am drafodaeth ynglŷn ag Ansawdd. Trafodwyd y cyfrifoldeb yn hirfaith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, sydd ar fin cael ei gweithredu yng Ngwanwyn 2023 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) (Cymru) ac mae'r Fforwm yn cynghori bod cymorth ar gael i staff er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn llwyddiannus. Unwaith y bydd wedi'i baratoi, cynigiwyd i aelodau'r Fforwm gyflwyno gweithdy hyfforddiant yn seiliedig ar senarios a'i roi ar brawf, er mwyn cynnig adborth ac awgrymiadau pellach cyn ei gyflwyno. • Tynnodd y cynrychiolydd Bydwreigiaeth sylw at adroddiad eu Haelodau ynglŷn â sut oedd adolygiad o oruchwyliaeth statudol yn y DU wedi cefnogi'r argymhelliad y dylai goruchwyliaeth statudol ddod i ben mewn Bydwreigiaeth. Mae model newydd, sef 'Diogelu at y Dyfodol' ar gyfer goruchwyllo bydwagedd yng Nghymru wedi cael ei ddatblygu, gyda chyfres o egwyddorion cytunedig i ddatblygu model proffesiynol o oruchwyliaeth glinigol, wedi'i arwain gan gyflogwyr ar gyfer pob bydwraig.

	Trafododd y Fforwm fuddion posibl model o'r fath ar gyfer holl weithwyr proffesiynol ac mae'n edrych ymlaen at y gwerthusiad ffurfiol o fewn y chwe mis nesaf. • Croesawodd y fforwm Iain Wilkie (IW) a Teresa Owen (TO) am drafodaeth ynglŷn â'r cynllun strategol ar gyfer Iechyd Meddwl. Mae aelodau yn cefnogi'r fantais o integreiddio mwy mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Yn arbennig, rhoddwyd cyngor felly i gryfhau gofal iechyd meddwl a gofal sylfaenol ac annog y defnydd o drefniadau gofal a rennir i gynorthwyo gyda phrofiad y claf.
Ymdriniwyd â Pharth Fframwaith Gwella Ymyrraeth a Dargedir	• Iechyd Meddwl (oedolion a phlant) • Strategaeth, cynllunio a pherfformiad • Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethiant, trawsnewid a diwylliant)
Busnes cynlluniedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrediad o eitemau sefydlog yn ogystal â: • Strategaeth Glinigol • Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol • Strategaeth Gwelliannau (SG) a dargedir
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	Dydd Gwener, 10 ^{fed} Mehefin 2022

Datgeliad:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad Archwilio: Adroddiad y Cadeirydd

Enw'r Pwyllgor:	Y Pwyllgor Archwilio
Dyddiad y cyfarfod:	15/03/22
Enw'r Cadeirydd:	Richard Medwyn Hughes, Aelod Annibynnol
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Molly Marcu, Ysgrifennydd y Bwrdd
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	• Cofnodion ac Adolygiad o'r Cofnod o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol (cyhoeddus a phreifat). • Manylion Toramodau o ran cyhoeddi papurau'r Bwrdd/Pwyllgor. • Cylch busnes arfaethedig y Pwyllgor Archwilio 2022/23. • Eitemau Sesiwn Preifat a Adroddwyd mewn Adroddiad Cyhoeddus. • Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Grŵp Rheoli Risg. • Y diweddaraf ar lafar am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Cynllun Archwilio Clinigol. • Rheolau Sefydlog a newidiadau i'r Uwch-gynllun Dirprwyo Neilltuedig. • Rhestr Hawliadau Ariannol (adroddiad cyhoeddus a phreifat) • Adolygiad rheolaidd o'r Polisi Atal Twyll a'r Polisi Safonau Cynnal Busnes. • Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – yn rhoi crynodeb o chwe adolygiad sicrwydd a gwblhawyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor: ○ Ymyriad wedi'i Dargedu (sicrwydd rhesymol). ○ Dysgu Gwersi (sicrwydd rhesymol). ○ Safon Cynnal Busnes (sicrwydd cyfyngedig). ○ Llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Integredig (sicrwydd cyfyngedig). ○ Camau dilynol - Cynnydd mewn perthynas ag argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC): Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (sicrwydd ddim yn berthnasol). ○ Ysbytai dros dro: Camau dilynol ynghylch argymhellion KPMG (sicrwydd ddim yn berthnasol). • Cynllun Archwilio Mewnol. • Adroddiad Cynnydd Archwilio Cymru a'r adroddiadau allanol canlynol: ○ Adolygu'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd ○ Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn ○ Ymateb y Rheolwyr i Ofal Iechyd Parhaus.

	• Adroddiad Cynnydd Dilysu ar ôl Talu • Adroddiad Cydymffurfriad Ariannol • Diweddariad ar Argymhellion yr Archwiliad Mewnol/Allanol
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	Mae'r Pwyllgor Archwilio: • Wedi derbyn a nodi Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd gan y Grŵp Rheoli Risg. • Wedi cefnogi cymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Newidiadau i'r Uwch-Gynllun Dirprwyo Neilltuedig Wedi cymeradwyo'r Polisi Atal Twyll a'r Polisi Safonau Cynnal Busnes. • Wedi cael a nodi'r adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol. • Wedi cael a nodi'r diweddariad cynnydd gan Archwilio Cymru, ynghyd ag adroddiadau eraill fel y manylir uchod. • Wedi cael a nodi'r Adroddiad PPV. • Wedi cymeradwyo'r Colledion a'r Taliadau Arbennig fel y nodir yn yr adroddiad Cydymffurfriad. • Wedi cael a nodi Adroddiad y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol (LCFS). • Wedi cael yr Adnodd Olrhain Argymhellion Archwiliad, wedi nodi'r cynnydd a'r gweithrediad mewn perthynas â'r camau gweithredu a amlinellwyd; ac wedi gofyn am gamau cywiro ar gyfer y camau gweithredu risg uchel sy'n hwyr.
Risgiau allweddol, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	Roedd y Pwyllgor wedi: • Trafod risgiau blaenorol a amlygwyd i'r bwrdd a'r gofyniad i sicrhau bod canlyniadau/camau gweithredu yn cael eu nodi. • Trafod pwysigrwydd Ymatebion y Rheolwyr sy'n mynd i'r afael yn llwyr â chanfyddiadau ac argymhellion archwiliad. • Nodi gweddill argymhellion archwiliad Gofal Iechyd Parhaus, yn ogystal â'r oedi wrth ymateb i argymhellion archwilio mewnol, a arweiniodd at oedi cyn i'r Pwyllgor gael yr adroddiad Rheoli Rhestrau Aros. • Adolygu dau adroddiad barn sicrwydd cyfyngedig yn perthyn i Fyrddau Gwasanaethau Integredig a Safonau Cynnal Busnes, gan nodi effaith yr un olaf ar ddatgelu Trafodion Partïon Cysylltiedig fel rhan o'r Archwiliad o'r Cyfrifon Blyneddol.
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Cytunwyd y rhoddid ystyriaeth i'r adolygiad mwyaf priodol ac amserol o'r adroddiad rheoli rhestrau aros sy'n weddill, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Nid oedd angen uwchgyfeirio unrhyw faterion i'r Bwrdd
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Pwrrpas y Pwyllgor Archwilio yw cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol fod trefniadau effeithiol ar waith – drwy lunio a gweithredu system sicrwydd y Bwrdd lechyd. Felly, mae'r Pwyllgor yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eu hystyr ehangaf, ond mae'r ffocws yn benodol ar sicrhau bod adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn cefnogi'r egwyddor o neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
Busnes a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd a: • Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd • Adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg • Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol • Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol – Adroddiadau Diwedd Blwyddyn. • Adroddiad Camau Gweithredu'r Cadeirydd ddwywaith y flwyddyn (wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar Gydymffurfriad Ariannol). • Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol (sy'n cynnwys Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol). • Cael adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a Llythyr Cynrychiolaeth. • Adroddiad Blynyddol Atal Twyll. • Cynllun Archwilio Clinigol. • Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	13.06.22



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad y Cadeirydd

Enw'r Pwyllgor:	Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targeddu (TIIF)
Dyddiad y cyfarfod:	03.05.22
Enw'r Cadeirydd:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	• Rhoddodd pob maes ddiweddariad yn erbyn y cynnydd a wnaed hyd yma a gefnogwyd gan un sleid o enghreifftiau. • Cadarnhaodd y tîm CAMHS fod ymgyrch recriwtio lwyddiannus yn cael ei chynnal a fydd yn dod ag oddeutu 140 o swyddi newydd i'r gwasanaeth. Mae anawsterau wrth recriwtio ar gyfer swyddi seiciatreg, ond mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r gweithlu seiciatreg. • Penodwyd Louise Bell yn Is-gadeirydd Is-Grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. • Sefydlwyd Senedd Glinigol Prifysgol Betsi Cadwaladr fel grŵp aml-broffesiwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol ac mae'n digwydd yn rheolaidd. • O ganlyniad i'r naid sylweddol o lefel 2 i lefel 3 o fewn y matricesau aeddfedrwydd, awgrymwyd rhannu perfformiad o'r maes Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad gan y gallai'r elfen hon atal yr elfennau Strategaeth a Chynllunio rhag symud ymlaen. Bydd hyn yn cael ei drafod mewn Gweithdy Bwrdd er mwyn bod yn glir o ran y sicrwydd ynghylch elfen Perfformiad y maes. • Mae'r Cyfarfod Cymedroli Ymyriadau wedi'u Targeddu gyda'r Uwch Swyddogion Cyfrifol a'r Rheolwyr Ymchwiliadau wedi bod yn cael ei gynnal gyda'r Sefydliad Llywodraethu Da ar gais y Bwrdd cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai. • Trafododd y grŵp y gwaith paratoi ar gyfer Cyfarfod Goruchwyllo Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ar 19.05.22.

	Mae pob maes yn y broses o ddatblygu dadansoddiad bylchau ar gais y Bwrdd.
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro cynnydd ymyriadau wedi'u targedu trwy oruchwyliaeth y Grŵp Llywio.
Risgiau allweddol, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir	Nid oedd cynrychiolydd ar gael ar gyfer y maes lechyd Meddwl Oedolion, bydd y tîm yn sicrhau bod cynrychiolydd ar gael yn y dyfodol i roi sicrwydd.
Maes y Fframwaith Gwellu Ymyriadau wedi'u Targedu y rhoddwyd sylw iddo	Pob un
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgysfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<i>Disgrifiwch sut mae'r materion a drafodwyd a'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion a ystyriwyd gan y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy neu, os nad ydynt, nodwch y rhesymau dros hyn.</i> <i>Cydbwyso'r angen yn y tymor byr gyda chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol – sy'n cael sylw gan y maes strategaeth, cynllunio a pherfformiad.</i> <i>Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu</i> <i>Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a cheisio eu barn – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu;</i> <i>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu – drwy ddyraniad cyllid Llywodraeth Cymru;</i> <i>Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill – sy'n cael sylw drwy waith ymgysylltu.</i>
Busnes a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Monitro cynnydd yn erbyn y fframwaith a nodi unrhyw broblemau.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	24.05.22



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad y Cadeirydd

Enw'r Pwyllgor:	Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu (TIIF)
Dyddiad y cyfarfod:	22.02.22
Enw'r Cadeirydd:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	- Mae'r cynnydd ym mhob un o'r parthau yn parhau. Fel y gofynnwyd yn flaenorol, roedd pob parth wedi darparu un sleid gydag enghreifftiau o arferion da a meysydd sy'n peri pryder. - Mae stori claf wedi cael ei rhannu yn dilyn ei daith o CAMHS i Iechyd Meddwl. Mae'n tynnu sylw at feysydd dysgu o ran gwrando ar gleifion, a gwella gwasanaethau o ganlyniad i brofiad cleifion. Mae swyddog cyswllt teulu bellach wedi cael ei benodi a bydd y claf yn ymuno â'r Bwrdd Iechyd fel arweinydd ifanc fel rhan o'r tîm profiad cleifion. - Darparwyd adborth ar Gyfarfod Goruchwyllo Llywodraeth Cymru ac mae camau gweithredu penodol wedi cael eu rhannu yn y llythyr a dderbyniwyd. - Bydd Gweithdy'r Bwrdd ym mis Ebrill yn adolygu'r hunanasesiad ymyriadau wedi'u targedu cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022. - Bydd cyfle i newid y geiriad o fewn y matricesau aeddfedrwydd os oes angen cyn yr hunanasesiad. - Cynhelir cyfarfod cyntaf y Grŵp Tystiolaeth ym mis Mawrth i adolygu a chymeradwyo'r fframwaith canlyniadau.
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	- Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro cynnydd ymyriadau wedi'u targedu trwy oruchwyliaeth y Grŵp Llywio. - Mae'r timau'n gweithio i sicrhau gwelliannau, er mwyn cynyddu lefelau aeddfedrwydd cyn yr hunanasesiad nesaf ym mis Mai 2022.
Risgiau allweddol, gan gynnwys	Mae risg o gynnydd annigonol ar y daith tuag at welliant; bydd goruchwyllo'r Grŵp Llywio a chraffu ychwanegol gan IM Links yn lliniaru hyn.

camau lliniaru a cherrig milltir	
Mynd i'r afael â Pharth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	• Pawb
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	• Dim
Materion y mae angen eu huwchgysyfeirio i'r Bwrdd:	• Dim
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<i>Disgrifiwch sut mae'r materion a drafodwyd a'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion a ystyriwyd gan y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy neu, os nad ydynt, nodwch y rhesymau dros hyn.</i> <i>1. Cydbwyso'r angen yn y tymor byr gyda chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol – a gaiff sylw gan y parth strategaeth, cynllunio a pherfformiad.</i> <i>2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu</i> <i>3. Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a cheisio eu barn – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu;</i> <i>4. Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu – drwy ddyraniad cyllid Llywodraeth Cymru;</i> <i>5. Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill – sy'n cael sylw drwy waith ymgysylltu.</i>
Materion arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	• Monitro cynnydd yn erbyn y fframwaith a nodi unrhyw broblemau.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	29.03.22



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad y Cadeirydd

Enw'r Pwyllgor:	Grŵp Llywio'r Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targeddu (TIIF)
Dyddiad y cyfarfod:	29.03.22
Enw'r Cadeirydd:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Gill Harris, Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Darparu Llwybrau Clinigol Integredig
Crynodeb o'r materion a drafodwyd:	• Cymeradwywyd y newidiadau i gylch gorchwyl y Grŵp Llywio Ymyriadau wedi'u Targeddu. • Trafodwyd cylch gorchwyl y Grŵp Tystiolaeth a chytunwyd y bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Cyswllt yn cymryd lle Ysgrifennydd y Bwrdd fel Is-gadeirydd. • Rhoddodd pob parth drosolwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp Tystiolaeth. • Er mwyn i'r parth strategaeth, cynllunio a pherfformiad gyrraedd lefel 2 uchel, mae'r sgôr hon yn seiliedig ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a hefyd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. • Roedd y lefelau a awgrymwyd ar gyfer pob un o'r parthau yn lefel 2 uchel o ran Iechyd Meddwl (pob oedran), Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad ac Ymgysylltu a lefel 2 o ran Arweinyddiaeth. • Trafodwyd cylch gorchwyl y Grŵp Canlyniadau a chytunwyd y bydd yr Arweinydd Digidol yn cymryd lle'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol fel Is-gadeirydd. • Cymeradwywyd y newidiadau y gofynnwyd amdanynt i fatricsau aeddfedrwydd CAMHS a Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad.
Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:	• Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro cynnydd ymyriadau wedi'u targedu trwy oruchwyliaeth y Grŵp Llywio.
Risgiau allweddol, gan gynnwys	• Mae risg allweddol yn ymwneud ag iechyd meddwl oedolion a CAMHS, sef y gallai materion sy'n ymwneud â'r gweithlu a recriwtio rwystro'r parth rhag cyrraedd statws enghreifftiol. Mae

camau lliniaru a cherrig milltir	nifer sylweddol o swyddi gwag ac wrth i'r parth symud yn ei flaen drwy'r matricesau, bydd hyn yn dod yn fwy o broblem a fydd yn cael ei gweld ar draws pob maes o'r fframwaith ymyriadau wedi'u targedu.
Rhoi sylw i Barth y Fframwaith Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu	Pawb
Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall	Dim
Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:	Dim
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<i>Disgrifiwch sut mae'r materion a drafodwyd a'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion a ystyriwyd gan y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy neu, os nad ydynt, nodwch y rhesymau dros hyn.</i> <i>Cydbwyso'r angen yn y tymor byr gyda chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol – a gaiff sylw gan y parth strategaeth, cynllunio a pherfformiad.</i> <i>Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu</i> <i>Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a cheisio eu barn – sy'n cael sylw yn y gwaith ymgysylltu;</i> <i>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu – drwy ddyraniad cyllid Llywodraeth Cymru;</i> <i>Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill – sy'n cael sylw drwy waith ymgysylltu.</i>
Materion arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:	Monitro cynnydd yn erbyn y fframwaith a nodi unrhyw broblemau.
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	25.04.22

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Cyfarfod y Bwrdd 26 Mai 2022
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018. Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru gyfan) a Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Cyfarwyddwr Cyfrifol:	Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Meryl Roberts, Rheolwr Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2).
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Amherthnasol
Atodiadau Appendices:	Atodiad 1: Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007:- Cyfarwyddydau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018. - <u>Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy ar gyfer Cymru.</u> Atodiad 2: Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007:- - <u>Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru</u>
Argymhelliad / Recommendation:	
Mae'r manylion a gyflwynir i'r Bwrdd yn yr Adroddiad hwn yn grynodedig o'r cymeradwyaethau sydd wedi cael eu cadarnhau yn barod ar gyfer cymeradwyaethau Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled y wlad. Mae'r adroddiad hwn yn darparu cofnod llywodraethu o ran cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007) parthed y broses gymeradwyo a chadarnhau. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a'r Ddogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2).	

Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate						
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	✓	Er gwybodaeth For Information
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N
Sefyllfa / Situation:						
Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ymgymryd â swyddogaeth ddirprwyedig Gweinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12(2) ar ran yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod prosesau effeithiol ar gyfer cymeradwyo, ail-gymeradwyo, atal a therfynu cymeradwyaeth Clinigwyr Cymeradwy a meddygon Adran 12(2) yng Nghymru.						
Cefndir / Background:						
Mae'r Broses Gymeradwyo yn rhan o'r broses ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007). Mae Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Llywodraeth Cymru (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018, Trefniadau Gweithdrefnol Clinigwyr Cymeradwy (Gorffennaf 2018) a Dogfen Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) Cymru Gyfan (Medi 2021) yn nodi'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo Meddygon a Chlinigwyr anfeddygol sy'n dymuno cael eu cymeradwyo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Defnyddir y dogfennau hyn gan y Tîm Cymeradwyo a Phanel Adran 12 a Chlinigwyr Cymeradwy Cymru Gyfan sy'n craffu ar geisiadau am gymeradwyaeth a dderbyniwyd oddi wrth Glinigwyr ledled y wlad. Derbynnir ceisiadau naill ai ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy neu geisiadau Adran 12(2) gan Seiciatryddion, Ymarferwyr Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill sy'n gymwys i wneud cais am statws cymeradwy dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) (fel y'i diwygiwyd yn 2007). Mae ceisiadau'n cael eu harchwilio gan y tîm cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio, ac yna'n cael eu cyflwyno i aelodau'r Panel er mwyn iddynt graffu arnynt, eu hasesu a gwneud argymhelliad. Yn dilyn asesiad y Panel, rhaid i unrhyw argymhelliad i gymeradwyo gael ei gadarnhau'n ffurfiol gan y Bwrdd Cymeradwyo, er mwyn i'r broses gymeradwyo fod yn gyfreithlon ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion deddfwriaethol. Ceisir cadarnhad drwy llythyr Gweithredu ysgrifenedig gan y Cadeirydd ac fe'i cyflwynir i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i'w gydlynw a'i gwblhau. Yna ceir cymeradwyaeth yn ysgrifenedig gan Gadeirydd y Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol, Ysgrifennydd y Bwrdd a dau Aelod Annibynnol ac fe'i dychwelir i'r Tîm Cymeradwyo. Mae'r Clinigydd wedyn yn cael gwybod ei fod wedi cael ei gymeradwyo a chaiff hyn ei gadarnhau yn ysgrifenedig mewn llythyr cymeradwyo wedi ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol.						

Wedyn, mae'r Bwrdd lechyd yn cadarnhau'r penderfyniadau'n ffurfiol drwy'r papur hwn sy'n cael ei gyflwyno bob dau fis

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Mae'r Bwrdd yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach y Cyfarwyddydau sy'n sail i'r swyddogaeth bwysig hon.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Adroddiad ffeithiol yw hwn at ddibenion sicrwydd.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Dim

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Er mwyn sicrhau bod yr holl Glinigwyr yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, mae Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan yn asesu ceisiadau yn unol â'r Trefniadau Gweithdrefnol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Os nad ydy Clinigwyr yn gwneud cais am ail-gymeradwyaeth yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, gallai eu cymeradwyaeth ddod i ben a chael effaith niweidiol ar argaeledd Clinigwyr Cymeradwy, Clinigwyr Cyfrifol a Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar draws y gweithlu yng Nghymru.

O dan Reoliadau lechyd Meddwl (Cydnabyddiaeth Gilyddol) 2008, mae Meddyg cymeradwy Adran 12(2) yn Lloegr hefyd wedi'i gymeradwyo yng Nghymru, ac fel arall. Oherwydd diffyg Cyfarwyddydau Adran 12 ar gyfer Cymru ar hyn o bryd, mae risg na fydd Meddyg cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru yn gyfreithlon yn Lloegr.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Mae'r Broses Gymeradwyo yn bodloni gofynion deddfwriaethol Deddf lechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd 2007) a Chyfarwyddydau Deddf lechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi nad oes gan Gymru Gyfarwyddydau Adran 12 ar hyn o bryd ar gyfer cymeradwyo, ail-gymeradwyo a therfynu cymeradwyaeth Meddyg Adran 12(2). Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â'r Tîm Cymeradwyo ar 20 Hydref 2021 a chytunwyd y bydd Cyfarwyddydau Adran 12 yn cael eu gwneud. Adolygodd Tîm Cyfreithiol Llywodraeth Cymru Gyfarwyddydau Adran 12 drafft ar gyfer cydymffurfio, a chynhaliwyd cyfarfodydd pellach rhwng y Tîm Cymeradwyo a Llywodraeth Cymru ar 8 Rhagfyr 2021, 4 ac 11 Chwefror 2022, ac 11 Mawrth i adolygu a chytuno ar y cynnwys. Mae rhagor o gyfarfodydd wedi cael eu trefnu i sicrhau bod y Cyfarwyddiadau Adran 12 drafft yn cael eu hadolygu, eu cytuno a'u deddfu gan Weinidog Cymru.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Dim.

Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy a Meddygon Cymeradwy Adran 12 (2) yng Nghymru

17 Chwefror 2022 – 2 Mai 2022

	Clinigwyr Cymeradwy	Adran 12 (2)
Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo	21	10
Tynnwyd – Wedi dod i ben	4	4
Atal cymeradwyaeth dros dro	0	0
Ail-ysgogi cymeradwyaeth/Ailysgogi a dychwelyd i weithio yng Nghymru	0	2
Cymeradwyaeth wedi dod i ben	0	0
Wedi ymddeol	0	0
Tynnwyd – Clinigwyr Cymeradwy wedi'u cymeradwyo	0	0
Ddim wedi cofrestru mwyach ac wedi ymddeol	0	0
Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (i Gofrestr Ad12)	0	0
Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach	0	0
Wedi cofrestru heb drwydded i ymarfer	0	0
RIP	0	0

ATODIAD 1

Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007

Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru)

Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru

17 Chwefror 2022 – 2 Mai 2022

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 21

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Mulligan	Caroline	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd, Ffordd Aber, Llanfairfechan, Conwy LL33 0HH.	21 Chwefror 2027	Oes
Jabeen	Qamar	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canolfan Iechyd Plant Wrecsam, Ysbyty Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD.	21 Chwefror 2027	Oes
Lloyd	Warren	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Tŷ Gwili, 1 Heol Bronwydd, Glangwili, Caerfyrddin, SA31 2AJ.	23 Chwefror 2027	Oes
Gandhi	Arpita	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Adran Cleifion Allanol, Ysbyty Llwyneryr, 151 Clasemont Road, Treforys, Abertawe SA6 6AH.	27 Chwefror 2027	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Pierce	Anita	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Dyffryn Clwyd, Noddfa, Lôn Ganol, Dinbych, Sir Ddinbych LL16 3UR.	27 Chwefror 2027	Oes
Gough	Karen	Ludlow Street Healthcare, Ysbyty Heatherwood Court, Heol Llantrisant, Pontypridd, CF37 1PL.	28 Chwefror 2027	Oes
Gopinath	Padmavathy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Caebryn, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn, Uned Caebryn, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli.SA14 8QF	6 Mawrth 2027	Oes
Medhurst	David Pete	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Caerffili, Uned 1, Parc Busnes Woodfieldside, Heol Penmaen, Woodfieldside, Y Coed Duon, NP12 2DG.	21 Mawrth 2027	Oes
Nirvani	Sanjeevkumar	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canolfan Adnoddau Pwll Glas, Ffordd Pwll Glas, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1RA.	21 Mawrth 2027	Oes
Seeley	David	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carchar EM Caerdydd, Tîm Iechyd Meddwl, Heol Knox, Caerdydd CF24 0UG.	23 Mawrth 2027	Oes
Jamil	Nahla	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Sant Cadog, Caerllion, Casnewydd, NP18 3XQ.	23 Mawrth 2027	Oes
Wynne	Tom Rhodri	Clinig Caswell, Ysbyty Glanrhyd, Heol Tondur, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4LN.	24 Mawrth 2027	Oes
Dunstall	Huw	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Hafod y Wennol, Hensol, Pontyclun, CF72 8JX.	27 Mawrth 2027	Oes
Slater	Alan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Adran Niwroseiciatreg, Hafan y Coed, Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Heol Penlan, Penarth CF64 2XX.	28 Mawrth 2027	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Koratala	Sajitha	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Uned Iechyd Meddwl, Ysbyty Cwm Cynon, New Rd, Aberpennar, CF45 4BZ.	31 Mawrth 2027	Oes
Prasad	Pravir Shanker	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Canolfan Llesiant Iechyd Meddwl, Parth R, Ysbyty Tywysoges Cymru, Heol Coity, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1RQ.	12 Ebrill 2027	Oes
Malhotra	Rahul	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Bryn y Neuadd, Ffordd Aber, Llanfairfechan, Conwy LL33 0HH.	17 Ebrill 2027	Oes
Khan	Afshan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol De Gwynedd, Ysbyty Alltwen, Tremadog, Gwynedd, LL49 9AWA.	13 Ebrill 2027	Oes
Paranjape	Anand	Regis Healthcare Limited, Ysbyty Annibynnol Hill, Glynebwy, NP23 5YA.	20 Ebrill 2027	Na* *yn disgwyl cadarnhad drwy Lythyr Gweithredu gan y Cadeirydd
Huckle	Philip Lee	Elysium Healthcare Limited, Ysbyty Annibynnol Aberbîg, Heol Penyardarren, Abertyleri, NP13 2YD.	25 Ebrill 2027	Na* *yn disgwyl cadarnhad drwy Lythyr Gweithredu gan y Cadeirydd
Chummun	Vinu Sharma	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i Oedolion, Llawr Cyntaf, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ.	2 Tachwedd 2022	Oes

Atal cymeradwyaeth dros dro: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ail-ysgogi cymeradwyaeth: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Cymeradwyaeth wedi dod i ben*: 4

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Sani	Abdul Khalid Mohd	Yn arfer bod yn: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd, Ffordd Penrhos, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2PW.	20 Mawrth 2022
Williams	Elliot	Yn arfer bod yn: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 1DN.	28 Chwefror 2022
Chawla	Rajan	Yn arfer bod yn: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol De Gwynedd, Ysbyty Alltwn, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd LL49 9AQ.	7 Mawrth 2022
Gandhi	Arpita	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Adran Cleifion Allanol, Ysbyty Llwyneryr, 151 Clasemont Road, Treforys, Abertawe SA6 6AH	6 Mawrth 2022 *wedi'i ailgymeradwyo'n ddiweddarach

Wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Ddim wedi cofrestru mwyach ac wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Trosglwyddwyd o'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy i Gofrestr Ad12: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Cymeradwyaeth wedi dod i ben: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

ATODIAD 2

Deddf Iechyd Meddwl 1983
Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru
17 Chwefror 2022 – 2 Mai 2022

Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo: 10

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Sungum	Hemma	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Tîm Triniaeth yn y Cartref ac Argyfwng, Bloc D, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Ffordd Baglan, Port Talbot, SA12 7BX.	18 Chwefror 2027	Oes
Jones	Gillian Mary	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ysbryd y Coed, Ysbyty Cefn Coed, Y Cocyd, Abertawe SA2 0GH.	20 Chwefror 2027	Oes
Colgate	Robert	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ.	24 Chwefror 2027	Oes
Soundararajan	Sathyan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tŷ Wepre, Civic Way, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4HA.	6 Mawrth 2027	Oes
Williams	Laura Jayne	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Diogelwch Canolig Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd, Ffordd Aber, Llanfairfechan, Conwy LL33 0HH.	6 Mawrth 2027	Oes
Oluwaseun	Adeitan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol, Ysbyty Cwm Cynon, New Rd, Aberpennar, CF45 4BZ.	13 Mawrth 2021	Oes
Samarasinghe	Anuradha	1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Meddygfa Glan yr Afon, Shop Row, Tredegar, NP22 4LB a 2. Meddygfa Minafon, Hillfield Villas, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 4UL.	17 Mawrth 2027	Oes

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben	Camau Gweithredu'r Cadeirydd
Gray	Marion	d/o Cyfeiriad Cartref Preifat yng Nghymru.	23 Mawrth 2027	Oes
Mahdi	Ameera	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Canolfan Gold Tops, Iechyd Meddwl Cymunedol, Serpentine Road, Casnewydd, NP20 4PF.	11 Ebrill 2027	Oes
Simiyon	Manjula	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Seiciatreg Gydgyssylltiol, Uned Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, Wrecsam, LL13 7TD.	26 Ebrill 2027	*Nac oes *yn disgwyl cadarnhad drwy Lythyr Gweithredu gan y Cadeirydd

Daeth i ben: 4*

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben
Jones	Gillian Mary	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ysbryd y Coed, Ysbyty Cefn Coed, Y Cocyd, Abertawe SA2 0GH.	*26 Chwefror 2022 wedi'i ailgymeradwyo'n ddiweddarach
Colgate	Robert	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Parc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ.	*1 Mawrth 2022 wedi'i ailgymeradwyo'n ddiweddarach
Rema	Samuel Sanjoy	Yn arfer bod yn: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Seiciatreg Gydgyssylltiol, Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, Lôn Sarn, Bodelwyddan, ger y Rhyll LL18 5UJ	6 Ebrill 2022
Holliday	Simon	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Canolfan Preseli, Ysbyty Llwynhelyg, Heol Abergwaun, Hwlfordd SA61 2PZ.	12 Ebrill 2022

Ail-ysgogi cymeradwyaeth/dychwelyd i Gymru: 2

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben
Tereza	Salvador Olivio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD.	14 Ebrill
Muhammad	Talib	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Canolfan Adnoddau Trealaw, Rhes Brynteg, Trealaw, CF40 2PD.	16 Mehefin 2026

Daeth i ben: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daeth y gymeradwyaeth i ben

Daeth yn Glinigwr Cymeradwy: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Ddim wedi cofrestru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Trosglwyddwyd o'r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw Cymeradwyaeth Ad12(2) i ben

Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

RIP: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Wedi ymddeol: 0

Cyfenw	Enw Cyntaf	Gweithle	Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 26.05.2022						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad hyd at 31.01.2022						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Edward Williams, Dirprwy Cyfarwyddwr Perfformiad						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Craffodd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid ac Llywodraethu Gwybodaeth ar y data a'r wybodaeth o fewn ei cylch gorchwyl yn yr adroddiad hwn ar 28ain Ebrill 2022.						
Atodiadau Appendices:	Dim						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Iechyd graffu ar yr adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	☒	Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Mae'r adroddiad yma yn cynnwys mesuriadau o Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2021-22. Mae'r Crynodeb Gweithredol wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad gyda Dangosfwrdd Crynodeb.							
Cefndir / Background:							
Mae tudalennau Crynodeb Gweithredol y QAP yn datgan y perfformiad yn erbyn y mesurau allweddol a geir yn Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r Mesurau Cyflawni Cenedlaethol yn deillio o'r Fframwaith ac maent yn cyd-fynd â'r Nodau Pedwarplyg a geir yn 'Cymru Iachach', sef cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.							
Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis							
Goblygiadau Strategol / Strategy Implications							
Mae'r Mesurau Cyflawni Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol, sy'n cefnogi 'Cymru Iachach' a Chynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd.							
Opsiynau a ystyriwyd / Options considered							

Ar ôl nifer o weithdai a chyfarfodydd adeiladol gydag aelodau'r Bwrdd, mae'r gyfres o adroddiadau perfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu hadolygu i gynnwys metrigau mwy cynhwysfawr, yn ogystal â data meincnodi perthnasol.

Mae cynhyrchiad yr adroddiadau hefyd yn cael ei adolygu ac rydym yn gweithredu proses awtomataidd a fydd yn cefnogi dangosfwrdd perfformiad Bwrdd Helath gydag ymarferoldeb i ddrilio i lawr i'r data mwy gronynnog i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Mae'r adolygiadau atebolrwydd chwarterol yn parhau a bydd unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r trafodaethau model gweithredu yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiadau atebolrwydd yn y dyfodol a'r adroddiadau perfformiad diwygiedig.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Bydd cyflawni'r mesurau yng Nghynllun Blynnyddol y Bwrdd lechyd yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar sefyllfa ariannol y Bwrdd.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Mae pandemig COVID-19 wedi esgor ar nifer o risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r ddarpariaeth gofal ar draws system gofal iechyd.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi i'r Bwrdd lechyd

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Ni wnaed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr Adroddiad.

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	26.05.2022 Bwrdd Iechyd						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol 2021-22 Sefydlu 31.03.2022						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Ed Williams Dirprwy Cyfarwyddwr Perfformiad						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Adolygwyd y data a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ar 28 Ebrill 2022. Mae'r newidiadau a wnaed i'r adroddiad ers cyhoeddi sefyllfa Chwarter 3 i'w gweld ar dudalen rheoli fersiwn yr Adroddiad.						
Atodiadau Appendices:	Atodiad 1 – Rhaglen Cynllun Blyneddol camau'r cynllun.						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	x	Er gwybodaeth For Information	x
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi hunanasesiad gan yr Arweinydd Gweithredol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r camau blaenoriaeth allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredol 2021/22, gweler atodiad 1, ar 31 Mawrth 2022. Dylid nodi, oherwydd pwysau gweithredol, fod yna nifer o gamau gweithredu lle nad yw diweddariad wedi'i ddarparu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Iechyd hwn a bydd adroddiad wedi'i ddiweddarau ar gael cyn gynted â phosibl. Mae'r Tîm Perfformiad yn gweithio gydag Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Cynllunio i adolygu a chryfhau'r broses fonitro ac yn bwriadu cael iteriad newydd o Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol pan fyddwn yn cyflwyno sefyllfa Chwarter 1 2022-23 ym mis Gorffennaf 2022.							
Cefndir / Background:							
Mae Arweinydd Gweithredol yn adolygu eu camau gweithredu penodedig a chynnydd cyfradd RAG ar ddiwedd pob chwarter. Lle mae cam gweithredu wedi'i gwblhau, cyfradd RAG porffor yw hwn. Mae graddfeydd coch yn berthnasol i gamau gweithredu lle na chyflawnwyd, darperir naratif byr ar							

gyfer pob cam â sgôr coch a lle mae camau gweithredu wedi newid o sgôr coch i borffor rhwng Ch3 a Ch4.

RAG	Description
Purple	Actions have been completed by the 31 st March 2022
Red	Actions have not been completed by the 31 st March 2022

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae cyflawni'r camau gweithredu yn allweddol i weithrediad Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd 2021/22, sydd wedi cael ei ddatblygu mewn cyntundeb a strategau lleol ac cenedlaethol – 'Byw'n Iachach Aros yn Iach ac 'Cymru Iachach'.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Amherthnasol

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Mae cyflawni'r cynllun gweithredol o fewn y gyllideb a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn rhan o sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n dda a bod gofal yn cael ei ddarparu'n effeithiol o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd.

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Mae'r sgôr COG yn adlewyrchu'r risg i gyflawniad y camau gweithredu allweddol.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar ran y Bwrdd Iechyd.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Mae'r cynllun gweithredol wedi derbyn Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Dyletswydd Economaidd-cymdeithasol.

Bydd cynlluniau sylfaenol ac achosion busnes y cyfeirir atynt yn y cynllun gweithredol yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl o ran cydraddoldeb / iaith Gymraeg / ansawdd / llywodraethu data / digidol / hawliau plant a allai olygu bod angen cynnal asesiad effaith.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd 26.5.22						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Adroddiad Cyllid Mis 12 2021/22						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Tim Woodhead, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol						
Atodiadau Appendices:	Atodiad 1: Pecyn Adroddiad Ariannol						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i aelodau nodi'r adroddiad.							
Gofynnir i'r Bwrdd ddirprwyo'r awdurdod i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol archwiledig a'r datganiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 13 Mehefin 2022							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad/ cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	✓	Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar faterion economaidd-gymdeithasol ddim yn berthnasol.							
Sefyllfa / Situation:							
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am berfformiad ariannol drafft y Bwrdd Iechyd heb ei archwilio am y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth 2022.							
Cyflwynwyd cyfrifon a datganiadau blynyddol drafft y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2022, gydag Archwilio Cymru yn dechrau ei adolygiad archwilio yr wythnos ganlynol. Mae'r archwiliad yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin.							
Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gofynnir i'r Bwrdd ddirprwyo'r awdurdod i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol archwiledig a'r datganiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 13 Mehefin 2022. Ar ôl cael cymeradwyaeth yn y cyfarfod hwn, bydd Archwilio Cymru wedyn yn cyflwyno'r cyfrifon archwiledig i Lywodraeth Cymru ac yn trefnu iddynt gael eu llofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.							
Cefndir / Background:							

Yn unol â holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, cafodd y cynllun drafft ei ddiwygio yn Chwarter 1 i fireinio ac i ddatblygu'r triongiant o weithgarwch, cynlluniau ariannol a'r gweithlu, gan gadw'r ffocws ar y chwe amcan allweddol a ddisgrifir yn y cynllun drafft. Roedd y cynllun ariannol diwygiedig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin yn rhagweld y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/22 yn cynnwys yr £82.0m o gyllid cymorth strategol a roddodd Llywodraeth Cymru y llynedd (£40.0m i dalu am y diffyg a £42.0m o gymorth strategol) a chyllid Cynllun Adfer COVID-19 gwerth £19.9m. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi yn cael eu defnyddio i wella perfformiad, lleihau rhestrau aros a sbarduno rhaglen drawsnewid sy'n gysylltiedig â model clinigol cynaliadwy ar gyfer gogledd Cymru.

Oherwydd y pandemig COVID-19 parhaus ac yn enwedig yr amrywiolyn Omicron newydd, nid oedd modd cyflawni'r cynlluniau gwreiddiol fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, a chafodd cynlluniau newydd, y gellid eu darparu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, eu nodi a'u rhoi ar waith.

Asesiad / Assessment:

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications

Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r nod strategol o sicrhau cydbwysedd ariannol ac mae'n gysylltiedig â'r amcan llesiant o dargedu ein hadnoddau at y rheini sydd fwyaf mewn angen.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered

Ddim yn berthnasol – adroddiad er sicrwydd yn unig

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru drwy ddisgrifio amrywiant i'r cynllun, yn hytrach na chyfanswm y gwariant ac mae'r tabl canlynol yn dangos mai'r canlyniad drafft ar gyfer 2021/22 yw gwared bach o £0.3m (0.02% o'r dyraniad) yn erbyn cynllun i fantoli'r gyllideb:

	Mis 12 £m	Blwyddyn Lawn £m
Sefyllfa Wirioneddol	0.3	0.3
Safle a Gynlluniwyd	0.0	0.0
Amrywiant	0.3	0.3

Cyfanswm effaith COVID-19 ym mis Mawrth yw £15.3m (£101.9m ar gyfer y flwyddyn hyd yma) gyda chynnydd wedi'i weld mewn costau brechu dros 4 mis olaf y flwyddyn. Rhagwelwyd y bydd incwm Llywodraeth Cymru yn talu am y costau hyn yn llawn, gan roi dim effaith ar y sefyllfa ariannol.

Dadansoddiad Risg / Risk Analysis

Nid oes unrhyw risgiau hysbys i'r sefyllfa ar hyn o bryd. Yr unig risg bosibl i'r sefyllfa yw unrhyw fater y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn am ei ddiwygio.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Amherthnasol.

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Amherthnasol.

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	I'w gadarnhau						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Diweddariad ac argymhellion Aelodau Gweithredol ar Gynllun 28 Diwrnod y Gwasanaethau Fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Jenny Farley, Cyfarwyddwr Rhwydwaith Fasgwlaidd						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:							
Atodiadau Appendices:							
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r tîm gweithredol gymeradwyo'r argymhellion							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance		Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/ SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Roedd angen i'r Gwasanaeth Fasgwlaidd roi sicrwydd i'r Bwrdd bod y gwasanaethau a ddarperir yn glinigol ddiogel ac effeithiol yn dilyn pryderon ynghylch nifer o ddigwyddiadau a effeithiodd ar y gofal i gleifion. Roedd yn ofynnol bod y Bwrdd yn rhoi cynllun gweithredu 28 diwrnod ar waith ar fyrder ac yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun hwnnw. Cychwynnodd y cynllun gweithredu gwreiddiol ym mis Mawrth ond cafodd ei ymestyn ymhellach tan 23 Mai, ac ar ôl y cyfnod hwnnw byddai angen ystyried effeithiolrwydd y gwasanaeth.							
Ar 9 Mawrth 2022, gofynnodd y Bwrdd Iechyd am arfarniad o opsiynau lefel uchel yn dilyn cynnydd mewn digwyddiadau clinigol yn y gwasanaeth a phryderon blaenorol a amlygwyd yn adroddiad Adolygiad a Wahoddwyd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS). O ganlyniad rhoddwyd amryw o gamau "gwneud yn ddiogel" ar waith am gyfnod cychwynnol o 28 diwrnod gyda'r bwriad o wneud y gwasanaeth yn fwy galluog i wrthsefyll pwysau hysbys a themâu sy'n deillio o ddigwyddiadau. Cychwynnodd y cyfnod o 28 diwrnod ar 17 Mawrth ac roedd disgwyl iddo bara tan 14 Ebrill 2022. Cafodd amryw o opsiynau ar gyfer gwella cymorth eu hystyried gan gynnwys ceisio cael staff clinigol ychwanegol o Wasanaethau Fasgwlaidd y Countess of Chester, ac Ymddiriedolaeth Sefydliad Ysgolion Athrofaol Lerpwl (LUHFT). Oherwydd y pwysau ar eu gwasanaethau hwythau, nid oedd y naill na'r llall yn gallu cynnig adnoddau ategol. Mi oedd LUHFT, fodd bynnag, yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad o bell, dros dro ar ffurf ymgynghoriad dros y ffôn y tu allan i oriau ar gyfer							

llawdriniaethau mawr a chymhleth. Roedd hyn yn ychwanegol at y cymorth ehangach y cytunwyd arno; mynychu cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol Fasgwlaidd. Mae llwybrau gweithdrefnau clinigol ar gael eisoes a fyddai'n golygu bod cleifion yn cael eu trin a'u trosglwyddo i LUHFT neu yn achos pediatreg, i Ysbyty Plant Alder Hey. Adeiladwyd ar y llwybrau hyn ar gyfer y cyfnod o 28 diwrnod i alluogi trefniadau ar gyfer trafodaethau a chynghor, a throsglwyddo os byddai angen, yn yr achosion mwyaf cymhleth.

Dylid nodi bod sawl ffactor wedi cyfrannu yn yr achosion y tynnwyd sylw Lywodraeth Cymru atynt ac nad oeddent yn ymwneud â chymhwystra'r llawfeddygon fasgwlaidd yn unig.

Mae'r timau clinigol a rheoli wedi parhau i weithredu rhaglen adfer yn unol ag Adolygiad Annibynnol (IR) Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS), ac roedd y cynllun hwn yn cynnwys:

- Llawdriniaethau dros nos brys yn digwydd mewn achosion lle mae bywyd mewn perygl yn unig
- Ail ymgynghorydd ar-alw ar benwythnosau i helpu ag achosion cymhleth
- Dau ymgynghorydd yn gweithredu mewn triniaethau cymhleth
- Tîm amlddisgyblaethol (MDT) bychain cyn cwblhau unrhyw achos brys
- Monitro effaith yr uchod yn wythnosol yn enwedig os oes angen canslo rhestrau theatr eraill a gynlluniwyd, apwyntiadau cleifion allanol neu achosion dydd
- Cynyddu capasiti clinigau drwy gynnal sesiwn rhestr aros ychwanegol i reoli galw brys
- Yn uniongyrchol i'r ward fasgwlaidd 3 yn safle'r Hwb o'r Adrannau Brys Spoke
- Cleifion yn cael eu dychwelyd i'r Adran Frys Spoke neu wasanaeth cymunedol yn gyflymach

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Cafodd pob elfen o'r cynllun eu gweithredu drwy gydol y cyfnod o 28 diwrnod. Profwyd ambell her wrth geisio sicrhau llawdriniaethau gyda dau ymgynghorydd o ganlyniad i effaith ar niferoedd y gweithlu mewn cyfnodau o salwch a gwylliau blynyddol, ac wrth geisio cynnal ymgynghorydd ychwanegol y tu allan i oriau. Dim ond triniaethau brys lle'r oedd bywyd yn y fantol a gynhaliwyd y tu allan i oriau, a hynny bob amser gyda thîm amlddisgyblaethol bychan ac yn ôl y gofyn, os oedd amser yn caniatáu, yn dilyn sgwrs â chydweithwyr yn Lerpwl.

Mae cyfarfodydd gweithredol wythnosol yn parhau gyda'r timau gweithredol ac er nad ydynt yn rhan o'r cynllun 28 diwrnod gwreiddiol mewn gwirionedd; yn dilyn digwyddiad difrifol, mae mapio prosesau wedi'i gynnal ar y llwybr Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen (AAA) gan ddechrau gydag Ysbyty Gwynedd. Bydd canlyniadau hyn yn datblygu i fod yn ddull Betsi cyfan i reoli atgyfeiriadau AAA o'r pwynt mynediad i driniaeth a rhyddhau.

Argymhellion

Roedd y camau a gymerwyd yn angenrheidiol i roi sicrwydd i'r Bwrdd ar ran Llywodraeth Cymru bod y gwasanaeth yn cyflwyno camau cefnogi llym i leihau'r risg o brofiadau annigonol i gleifion.

Argymhellir fod y gwasanaeth yn:

- parhau i fonitro a gweithredu ar bob digwyddiad clinigol yn unol â phrosesau llywodraethu'r Bwrdd
- parhau â'r cyfarfodydd gweithredol wythnosol a chynnal y rhestrau aros brys
- cynnal llawdriniaethau y tu allan i oriau mewn achosion lle mae bywyd yn y fantol **yn unig** ac archwilio'n rheolaidd
- parhau i archwilio hyd arosiadau ac oedi cyn trosglwyddo i'r spoke neu welyau cymunedol a chymryd camau perthnasol
- archwilio gweithrediad y timau amlddisgyblaethol bychain cyn llawdriniaethau brys
- parhau â gwaith trawsnewid ac ail-ddylunio'r gwasanaeth, yn benodol y llwybr AAA a dechrau ail-ddylunio gwasanaeth ar y llwybr fasgwlaidd Brys o Fehefin 2022.

Bydd LUHFT yn parhau i gynorthwyo gyda thimau amlddisgyblaethol y cytunwyd arnynt eisoes. Drwy ddiffiniad, mae llawfeddygon yn gymwysedig i gynnal llawdriniaethau, ac felly cynigir fod y camau canlynol a gymerwyd yn dod i ben

- llawdriniaethau deuol (oni bai bod llawdriniaethau penodol yn gofyn am fwy nag un llawfeddyg fasgwlaidd)
- ar-alw ychwanegol hefyd yn dod i ben

Bydd monitro manwl o unrhyw ddigwyddiadau'n parhau a phe bai pryderon difrifol, gellir ailgyflwyno'r camau uchod ar unwaith.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Ddim yn berthnasol i'r papur hwn

Dadansoddiad Risk / Risk Analysis

Gofynnir i'r Tîm Gweithredol nodi fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gymorth gan NHS England pe byddai'r gwasanaeth fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru yn methu â sicrhau gwelliannau sylweddol i ofal a phrofiad cleifion.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance

Amherthnasol

Asesiad Effaith / Impact Assessment

Amherthnasol

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Bwrdd Iechyd						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad: Report Title:	Adroddiad Amlygu Ansawdd – Chwefror a Mawrth 2022						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Gaynor Thomason, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Ansawdd						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Ansawdd Dr Kath Clarke, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro Diogelwch Cleifion Carolyn Owen, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro Profiad Cleifion a Gofalwyr						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Gaynor Thomason, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Ansawdd						
Atodiadau Appendices:	Adroddiad Amlygu Ansawdd – Chwefror a Mawrth 2022						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.							
Ticiwch fel bo'n briodol / Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad/ cymeradwyaeth For Decision/ Approval		Ar gyfer Trafodaeth For Discussion		Ar gyfer sicrwydd For Assurance	√	Er gwybodaeth For Information	
Y/N i ddangos a yw dyletswydd Cydraddoldeb/SED yn berthnasol Y/N to indicate whether the Equality/SED duty is applicable						N	
Sefyllfa / Situation:							
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o wybodaeth allweddol yn ymwneud ag ansawdd rhwng misoedd Chwefror a Mawrth 2022. Nod yr adroddiad newydd hwn yw rhoi uchafbwyntiau ansawdd allweddol i'r Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod. Mae gwybodaeth fanwl am dueddiadau, themâu, dysgu a gwella ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn yr Adroddiad Diogelwch Cleifion bob deufis a'r Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr dair gwaith y flwyddyn. Ar ben hynny, mae papur manwl ar gwympiadau a briwiau pwyso a gafwyd o fewn gofal iechyd wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ym mis Mawrth 2022.							

Cefndir / Background:

Yn y GIG yng Nghymru, mae'r diffiniad o ansawdd mewn statud yn cynnwys tri dimensiwn: diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol a phrofiad cleifion (a gofawyr). Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at wybodaeth allweddol am ansawdd ar gyfer y Bwrdd, gyda gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

Asesu a Dadansoddi / Assessment & Analysis

Goblygiadau Strategol / Strategy Implications – Ddim yn berthnasol.

Opsiynau a ystyriwyd / Options considered - Ddim yn berthnasol.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications - Ddim yn berthnasol.

Dadansoddi Risg / Risk Analysis – Wedi'i gynnwys yn y papur.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth / Legal and Compliance – Wedi'i gynnwys yn y papur.

Asesiad Effaith / Impact Assessment - Ddim yn berthnasol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Amlygu Ansawdd i'r Bwrdd Iechyd

Chwefror 2022 - Mawrth 2022





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Amlygu Ansawdd Chwefror 2022 - Mawrth 2022

Yn y GIG yng Nghymru, mae'r diffiniad o ansawdd mewn statud yn cynnwys tri dimensiwn: diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol a phrofiad cleifion (a gofalwyr)¹.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o wybodaeth allweddol yn ymwneud ag ansawdd rhwng misoedd Chwefror a Mawrth 2022. Nod yr adroddiad newydd hwn yw rhoi uchafbwyntiau ansawdd allweddol i'r Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod.

Mae gwybodaeth fanwl am dueddiadau, themâu, dysgu a gwella ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn yr Adroddiad Diogelwch Cleifion bob deufis a'r Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr dair gwaith y flwyddyn.

Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol

O 14 Mehefin 2021 ymlaen, roedd yn ofynnol i gyrrff cyfrifol GIG Cymru roi Cam 1 Polisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Adrodd ar Ddigwyddiadau ar waith. Y newid amlycaf o ran cyfeiriad polisi yw newid terminoleg drwy ddileu'r gair "difrifol" o'r term digwyddiad difrifol. Y bwriad yma wrth ddileu'r gair "difrifol" yw cefnogi diwylliant dysgu mwy cyfiawn lle nad yw rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn teimlo'n gosbol.

O 14 Mehefin 2021 ymlaen, mae'r diffiniad canlynol o ddigwyddiad cenedlaethol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn berthnasol:

"A patient safety incident which caused or contributed to the unexpected or avoidable death, or severe harm, of one or more patients, staff or members of the public, during NHS funded healthcare."

Mae'r amserlen ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath wedi cynyddu o 24 awr i o fewn saith diwrnod gwaith.

Mae Digwyddiadau "Byth" yn cael eu diffinio fel digwyddiadau diogelwch cleifion y gellir eu hatal yn llwyr oherwydd bod canllawiau neu argymhellion diogelwch ar gael ar lefel genedlaethol ac y dylai pob darparwr gofal iechyd fod wedi eu rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o ddigwyddiadau sy'n cael eu hystyried yn Ddigwyddiadau Byth. Mae gan bob math o Ddigwyddiad Byth y potensial i achosi niwed difrifol i gleifion neu farwolaeth. Fodd bynnag, nid oes angen i niwed difrifol neu farwolaeth ddigwydd o ganlyniad i ddigwyddiad penodol er mwyn i'r digwyddiad hwnnw gael ei gategoreiddio'n Ddigwyddiad Byth. Mae angen ymchwilio'n llawn i Ddigwyddiadau Byth o dan y Polisi Cenedlaethol ar Adrodd am Ddigwyddiadau.

Cofnodwyd 42 o Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol, gan gynnwys tri Digwyddiad Byth (un yn cael ei adrodd yn ôl-weithredol) am y cyfnod o ddau fis.

Ar gyfer y digwyddiadau mwyaf difrifol, mae Paneli Dysgu Cyflym dan arweiniad y Weithrediaeth yn cael eu cynnal i gefnogi'r gwaith o ganfod a rhannu dysgu a gwella yn gyflym.

¹ Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Mae hyn yn ychwanegol at yr Adolygiad Cyflym Gwneud yn Ddiogel (o fewn 72 awr) a'r ymchwiliad llawn. Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd 16 cyfarfod Panel Dysgu Cyflym i'r digwyddiadau mwyaf difrifol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar lefel genedlaethol i wella'r gwaith o gasglu data am ddigwyddiadau diogelwch cleifion fel rhan o raglen RL Datix Unwaith i Gymru. Bydd hyn yn help i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol, o ansawdd well, a dylai ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd feincnodi perfformiad yn fwy effeithiol.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa'r Bwrdd Iechyd o ran digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol fesul 100,000 o'r boblogaeth o'i chymharu â sefyllfa Cymru gyfan fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Cyfnod	Digwyddiadau BIPBC/100,000	Digwyddiadau Cymru Gyfan/100,000
Meh/Gorff 2021	1.0	1.8
Awst/Medi 2021	1.8	2.3
Hyd/Tach 2021	3.8	3.0
Rhag/Ion 2022	4.3	3.2
Chwe/Maw 2022	6.2	3.8
Cyfartaledd	3.4	2.8

O ystyried y niferoedd bach dan sylw, a'r gofynion adrodd penodol ar gyfer rhai digwyddiadau sy'n gallu amrywio, dylid ystyried y cyfartaledd yn gymhariaeth fwy defnyddiol na chyfnod unigol o ddau fis. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r data bod cynnydd wedi bod yn y digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn ystod y 4 mis diwethaf.

Dylid cwblhau ymchwiliadau o fewn cyfnod penodol sy'n gymesur â'r digwyddiad – mae hyn yn cydbwysu'r angen i gwblhau ymchwiliadau'n amserol, i sicrhau dysgu a gwella cyn gynted â phosibl, gyda'r angen i sicrhau bod ymchwiliadau trylwyr yn cael eu cynnal. Roedd y gyfradd cau gyffredinol o fewn yr amserlen a bennwyd yn 87.5% ym mis Chwefror, gan ostwng ychydig i 75% ym mis Mawrth. Er bod hon yn sefyllfa llawer gwell, mae'r effaith ar wasanaethau o ganlyniad i bwysau clinigol, salwch staff, swyddi gwag ac adleoli staff wedi effeithio ar allu gwasanaethau i ymateb yn fwy amserol i ymchwiliadau i ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa orau a welwyd ers tro (gyda mis Chwefror y gorau erioed).

Gellir dadansoddi'r 42 digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol a gofnodwyd yn ystod y cyfnod o ddau fis fel a ganlyn:

- Digwyddiad Byth (n=2) – llawdriniaeth ar y safle anghywir
- Digwyddiad Byth (n=1) – swab wedi'i adael (cofnodwyd yn ôl-weithredol)
- Syrthio gyda niwed difrifol (n=17)
- Briw pwyso sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, Graddfa 3 neu'n uwch (n=7)
- Oedi neu fethiant i fonitro'r claf (n=4)
- Methiant i weithredu ar symptomau niweidiol (n=1)

- Gweithredu a monitro/adolygu parhaus (n=2)
- Oedi gyda'r gwasanaeth ambiwlans yn arwain at niwed/marwolaeth i'r claf (n=3)
- PRUDIC (n=1)
- Oedi wrth dderbyn triniaeth - offthalmoleg (n=3)
- Oedi cyn gwneud diagnosis (n=1)

Mae gwybodaeth fanwl am ddigwyddiadau diogelwch cleifion wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio, ac nid yw wedi'i chynnwys yma i osgoi dyblygu. Isod ceir crynodeb lefel uchel o'r prif themâu a'r dysgu a'r gwella:

Adnabod ac uwchgyfeirio cleifion sy'n dirywio (gan gynnwys oedi/methiant i fonitro claf, methiant i weithredu ar symptomau niweidiol, gweithredu a monitro/adolygu parhaus) (n=7)

Roedd saith digwyddiad a adroddwyd yn genedlaethol yn ystod y cyfnod hwn lle bu oedi yn y broses o adnabod, uwchgyfeirio a thrin claf a oedd yn dirywio a hynny wedi arwain at niwed difrifol neu farwolaeth. Digwyddodd pedwar o'r digwyddiadau yn Ysbyty Glan Clwyd, dau yn Ysbyty Gwynedd, ac un yn Wrecsam Maelor. Yn ogystal, cydnabyddir y gall diffyg cynllun rheoli clir a thrafodaethau amserol gyda chleifion a theuluoedd ynglŷn â therfynau gofal arwain at uwchgyfeirio amhriodol.

O ran gwella –

- Mae archwiliad yn cael ei gynnal o alwadau brys meddygol, dan arweiniad un o Gyfarwyddwyr Meddygol Ysbyty y safle aciwt. Bydd y gwaith hwn yn darparu gwybodaeth i alluogi gwelliannau wedi'u targedu lle bo angen, gyda'r nod o leihau nifer y galwadau a bod terfynau gofal yn cael eu trafod yn rhagweithiol ac yn briodol gyda chleifion, teuluoedd a thimau clinigol. Bydd hyn yn sail i gynlluniau gwella yn y dyfodol.
- Mae rhybudd diogelwch sy'n nodi'r camau i'w cymryd (gan gyfeirio at bolisi a gweithdrefn) wedi cael ei gyhoeddi ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae adolygiad o'r Tîm Ymyriadau Aciwt, dan arweiniad y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, yn mynd rhagddo. Hyd yma, mae asesiad sylfaenol wedi'i gwblhau a'r blaenoriaethau ar gyfer grŵp darparu gwasanaeth y Tîm Ymyriadau Aciwt wedi'u nodi. Mae hyn yn cynnwys safonau gweithredu a fframwaith cymwyseddau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailffurfio grŵp gwella i edrych ar un agwedd ar y maes hwn. Cyfarfu'r Grŵp Adolygu Sbardun Sepsis, Uwchgyfeirio a Stiwardiaeth Gwrthfotigau (STEAR) ym mis Mawrth 2022 am y tro cyntaf. Ffurfiwyd y grŵp hwn i ddarparu canllawiau arfer gorau ar draws y Bwrdd Iechyd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i benderfynu sut i sbarduno, ymateb, uwchgyfeirio ac adolygu'r ymateb i'r claf sy'n dirywio.

Cwmpyadau (n=17)

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd cyfanswm o 17 o gwmpyadau cleifion a arweiniodd at niwed difrifol/parhaol ac felly roeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adrodd yn genedlaethol. Maent yn rhannu fel a ganlyn:

Dwyrain Aciwt (2), Gorllewin Aciwt (2), Ardal y Gorllewin (4), Canolog Aciwt (6), Ardal Ganolog (3).

Ar ôl adolygu'r dysgu cychwynnol o'r digwyddiadau hyn, mae nifer o themâu y gellir eu nodi sy'n cyfrannu at y cwmpyadau hyn:

- Prinder staff
- Cwblhau dogfennau cwmpïadau yn annigonol
- Trosglwyddo/cyfathrebu gwael rhwng staff neu gyda theuluoedd
- Diffyg defnydd o'r clychau galw.

O ran gwella –

- Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gweithio gyda staff ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd i wella safonau dogfennau. Anfonwyd llythyr yn ddiweddar at bob nyrs gofrestredig yn eu hatgoffa o'r safonau gofynnol.
- Mae dogfennau trosglwyddo SBAR newydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng staff nyrsio a hefyd i ganiatáu cyfathrebu amserol a chywir gyda theuluoedd cleifion.
- Mae'r Polisi Cwmpïadau wedi cael ei ailysgrifennu gyda chyfraniad amlddisgyblaethol. Mae'r polisi'n glir ac yn hawdd ei ddeall o ran rolau a chyfrifoldebau gyda chmau gweithredu clir ar gyfer atal a rheoli cleifion ar ôl iddynt gwmpo. Mae'n ategu'r gwaith y mae timau gweithredol wedi bod yn ei wneud. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a bydd y cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Cwmpïadau Strategol.
- Mae modiwl E-ddysgu Atal Cwmpïadau (Modiwl 1a) wedi cael ei ddatblygu a'i lansio.
- Mae modiwl E-ddysgu Cwmpïadau (Modiwl 1b) sy'n ymwneud ag asesu risg a rheoli cleifion ar ôl iddynt gwmpo wedi cael ei ddatblygu a'i lansio.
- Mae'r Canllaw i Gleifion ar Gerdded gyda Phwrpas wedi cael ei ysgrifennu a'i rannu ar gyfer rheoli cleifion sy'n cerdded yn bwrpasol yn y lleoliad clinigol fel rhan o'r Rhaglen Gofal Diogel a Glân.

Briw pwyso sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, Graddfa 3 neu'n uwch

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd cyfanswm o 17 o friwiau pwyso cysylltiedig â gofal iechyd gradd 3, gradd 4 neu nad oedd modd eu graddio. Y themâu sy'n codi dro ar ôl tro yw:

- Dim tystiolaeth o gynyddu rowndiau bwriadol yn ôl yr angen.
- Oedi wrth lenwi dogfennau adeg derbyn cleifion h.y. cynlluniau rheoli briwiau pwyso a dogfennau 'Purpose T'

Mae pob ymchwiliad i friwiau pwyso yn cael ei adolygu bob wythnos mewn cyfarfodydd niwed lleol. Mae'r Tîm Nyrsys Hyfywedd Meinwe yn bresennol i ddarparu cefnogaeth arbenigol. Mae'r gwaith gwella'n parhau ac fe'i targedir ar sail canfyddiadau lleol a meysydd o ddiddordeb.

Digwyddiadau Byth

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, rhoddwyd gwybod am dri Digwyddiad Byth, y manylir arnynt isod (mae un ohonynt yn ddigwyddiad ôl-weithredol o fis Mai 2021). Mae ymchwiliadau i'r tri yn parhau.

Darn estron wedi'i adael.

Dysgu Uniongyrchol: Rhaid cwblhau archwiliad swabiau, darnau miniog ac offer ac yna elfen “Allgofnodi” Sefydliad lechyd y Byd ar y rhestr wirio ar ddiwedd y driniaeth. Rhaid cyfathrebu’n rheolaidd â’r theatr a’r tîm wrth iddo newid am leoliad swabiau. Dylid ysgrifennu unrhyw swabiau a adewir yn fwriadol ar fyrddau gwyn y theatr adeg eu gosod a’u cofnodi’n llawn yn y Llwybr Gofal Integredig. Mae’r dysgu hwn wedi cael ei rannu gyda’r timau theatr.

Llawdriniaeth safle anghywir.

Dysgu Uniongyrchol – Yn yr achos hwn roedd y llawfeddyg yn newydd i’r Bwrdd lechyd. Mae ymholiadau cychwynnol yn awgrymu nad oedd y llawfeddyg wedi cael hyfforddiant i’w alluogi i weld y delweddau ac iddo weithredu’n gyfan gwbl ar sail yr adroddiad (a oedd yn anghywir). Cyfrannodd hynny at y digwyddiad. Mae amrywiaeth o fesurau diogelwch wedi cael eu rhoi ar waith ar unwaith, gan gynnwys dau llawfeddyg yn cydweithio ar-alwad, ac mae’r rhain wedi cael eu hadrodd i’r Pwyllgor mewn papurau ar wahân.

Llawdriniaeth safle anghywir.

Dysgu Uniongyrchol: Mae’r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer trosglwyddiadau brys i Stoke dan ystyriaeth. Mae rhybudd diogelwch ar deithio diogel wedi cael ei roi ar gyfer staff sy’n ymateb ar draws safleoedd.

Mewn ymateb i nifer y Digwyddiadau Byth, a’r dysgu a nodwyd, cydnabu’r Bwrdd lechyd rôl ffactorau dynol o ran atal a lliniaru methiant systemig i gleifion, teuluoedd a staff clinigol. Nod y Bwrdd lechyd yw prif ffrydio gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer seiliedig ar ffactorau dynol er mwyn sicrhau bod gofal mwy diogel yn cael ei ddarparu’n gyson ac yn gynaliadwy i gleifion, gan gefnogi ein staff i gyflawni hynny: ei gwneud yn hawdd iddynt wneud y peth iawn.

Er mwyn gwneud hyn, mae’r Bwrdd lechyd (1) wedi comisiynu cwmni allanol gydag arbenigedd o ran ffactorau dynol, AQUA, i feithrin capasiti a gallu mewn ffactorau dynol a’i gymhwyso i ofal ieuchyd, (2) wedi dechrau datblygu cyfadrannau ar draws y sefydliad sy’n canolbwyntio ar ffactorau dynol, a (3) wedi dechrau rhaglen wedi’i thargedu i’w chynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer diogelwch llawfeddygol.

I gefnogi (3) mae’r Gyfarwyddiaeth Trawsnewid a Gwella wedi recriwtio Cymrawd Gwella Ansawdd. Bydd y cymrawd hwn yn cyfuno addysgu methodoleg gwella â’i chymhwyso i raglen waith benodol h.y. lleihau nifer y Digwyddiadau Byth yng nghyd-destun theatrau, a gwella’r cydymffurfio â rhestr wirio diogelwch llawfeddygol Sefydliad lechyd y Byd (ac ansawdd). Mae’r cymrawd cyntaf yn Ymarferydd Adran Llawdriniaethau profiadol, sydd wedi bod yn gweithio’n ddiweddar fel Dirprwy Reolwr Arweiniol y Tîm Diogelwch Cleifion.

Cwynion

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022, derbyniwyd 364 o gwynion a rhoddwyd 343 o ddatrysiadau cynnar ar waith.

Cafwyd canlyniad boddhaol i 89% o’r datrysiadau cynnar.

Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y targed o 75% ar gyfer cyfradd ymateb o 30 diwrnod gan y Bwrdd lechyd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cwynion hwyr yn ystod y cyfnod

hwn. Roedd y sefyllfa wedi dirywio dros gyfnod y gaeaf ac mae'n gwella'n araf. Ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd 309 o gwynion yn hwyr o'r 515 o gwynion agored. Mae ffocws sylweddol ar waith i gefnogi gwasanaethau i adfer eu sefyllfa ac mae cynllun adfer ar waith.

Y themâu cyffredin o fewn cwynion oedd cydsyniad, cyfrinachedd a chyfathrebu, yn ogystal â mynediad at apwyntiadau, derbyn, trosglwyddo a rhyddhau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â gwasanaethau i gefnogi gwelliannau lleol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022, derbyniwyd 42 o ymholiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Ombwdsmon 84 o ymholiadau/ymchwiliadau ar y gweill o ran y Bwrdd Iechyd.

Nid oes unrhyw faterion penodol i'w hadrodd fel eithriadau i'r Bwrdd ar hyn o bryd.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Adroddiadau Budd y Cyhoedd gan yr Ombwdsmon yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022.

Mae gwybodaeth fanwl am achosion allweddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Adborth gan Gleifion

Mae adborth cleifion a gwrando ar leisiau cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn allweddol er mwyn gwella gwasanaethau'n effeithiol. Mae system adborth cleifion CIVICA yn cael ei gwreiddio ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, gyda'r broses o'i rhoi ar waith wedi dechrau yn haf 2021. Mae'n fecanwaith i gefnogi adborth gan gleifion a gofalwyr mewn amser real. Mae'r system adborth cleifion ar-lein yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio nifer o arolygon ar draws nifer o sianeli, ynghyd ag adrodd safonol, tynnu sylw a dadansoddi testun gwell. Mae'n garreg filltir bwysig o ran rhoi cyfle i bob claf a gofalwr sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

Ym mis Chwefror a mis Mawrth, cafwyd 1,984 o ymatebion adborth gan gleifion. O'r rhain:

- Roedd y sgôr profiad cyfartalog yn 9.45 allan o 10;
- Dywedodd 43.63% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg gyda staff os oeddent yn dymuno;
- Dywedodd 86.08% o'r ymatebwyr fod staff wedi cymryd amser i ddeall beth sy'n bwysig iddynt;
- Dywedodd 82.95% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt;
- Dywedodd 89.46% o'r ymatebwyr eu bod yn derbyn cymorth pan oedd angen.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn defnyddio Dadansoddiad Testun Hybrid Pansensic™ o ddata ansoddol i ddarparu gwybodaeth allweddol o'r naratif a ddarperir gan gleifion yn ogystal â'r sgoriau a ddarperir gan gleifion.

Y prif eiriau cadarnhaol yw tosturi, cyfeillgar, proffesiynol a chwrtais. Y prif eiriau negyddol yw aros, cefnogaeth emosiynol, cyfleusterau, cysur a bwyd.

Darperir dadansoddiad o'r wybodaeth hon i wasanaethau drwy ddangosfwrdd byw ac adroddiad misol. Anogir gwasanaethau i edrych ar eu hadborth a gweithredu i wella.

Mae Fframwaith Adborth Cleifion a Gofalwyr newydd yn cael ei ddatblygu i sefydlu dull cryfach o wrando a gweithredu ar adborth.

Mae'r Gwasanaeth Cyngori a Chyswllt Cleifion yn cynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth gyfrinachol am faterion sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'n bwynt cyswllt i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Roedd tîm y Gwasanaeth Cyngori a Chyswllt Cleifion wedi rhyngweithio 966 o weithiau â chleifion, teuluoedd a gofalwyr ym mis Ionawr a mis Chwefror 2022. Roedd y prif feysydd cymorth a ddarparwyd i gleifion, teuluoedd a gofalwyr yn cynnwys cymorth gyda chyfathrebu (264), cymorth gydag amseroedd aros (85) a chymorth gyda chydlynu gofal (65).

Mae gwybodaeth fanwl wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Cwestau

Ymchwiliad i amgylchiadau marwolaeth yw cwest. Pwrpas y cwest yw canfod pwy oedd yr ymadawedig a sut, pryd a ble y bu farw a rhoi'r manylion angenrheidiol ar gyfer cofrestru ei farwolaeth.

Yn ystod y cyfnod perthnasol, Chwefror a Mawrth 2022, daeth 75 o gwestau newydd neu geisiadau am wybodaeth i law gan y Crwneriaid yng Ngogledd Cymru, a daeth 48 o'r rhain i law ym mis Mawrth. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Cwblhawyd 61 o gwestau rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2022

Cyhoeddwyd un Hysbysiad Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol) yn deillio o gwest a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2022 ond ni ddaeth i law tan fis Mai 2022. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr hysbysiad newydd ddod i law ac roedd yn cael ei werthuso. Roedd a wnelo'r hysbysiad ag arferion meddyginiaeth mewn nyrsio cymunedol. Ceir manylion pellach yn yr adroddiad nesaf.

Roedd yr Adroddiad Diogelwch Cleifion i'r Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Phrofiadau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl Hysbysiadau Rheoliad 28 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymglyfreitha

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022, daeth 64 o hawliadau neu hawliadau posibl i law yn erbyn y Bwrdd Iechyd. O'r rhain, roedd 53 yn ymwneud ag esgeulustod clinigol ac 11 yn ymwneud ag anaf personol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na'r misoedd diwethaf.

Er bod y niferoedd wedi amrywio ychydig yn ystod y cyfnodau deufisol, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg (cyfreithwyr y Bwrdd Iechyd) yn rhagweld y bydd yr hawliadau'n cynyddu'n sylweddol oherwydd effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol pandemig Covid-19. Mae nifer

yr hawliadau newydd sy'n dod i law wedi cynyddu dros y ddau fis diwethaf, sy'n unol â'r disgwyl, a chredir y bydd y ffigur hwn yn parhau i gynyddu wrth i'r Bwrdd lechyd ddechrau delio ag effeithiau canslo triniaethau ac apwyntiadau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad i roi sicrwydd bod y lefelau awdurdodi priodol wedi'u rhoi, ochr yn ochr ag archwiliad mewnol blynyddol (roedd yr archwiliad diwethaf yn rhoi Sicrwydd Sylweddol).

Mae pob Bwrdd lechyd yng Nghymru yn cyfrannu at gronfa atebolrwydd a chanddynt gytundeb rhannu risg, a elwir yn Gronfa Risg Cymru. I sicrhau bod dysgu a gwella'n cychwyn ac yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd, mae gan Gronfa Risg Cymru weithdrefnau cenedlaethol llym. Mae gweithdrefnau Cronfa Risg Cymru yn gofyn am Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau (LfER) ac Adroddiad Rheoli Achos (CMR). Mae'r rhain yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd lechyd i adrodd ar y materion sydd wedi cael eu nodi mewn hawliad ac i benderfynu sut y rhoddwyd sylw iddynt er mwyn lleihau'r risg y byddant yn digwydd eto a lleihau effaith digwyddiad yn y dyfodol. Mae'r sbardun ar gyfer LfER yn gysylltiedig â dyddiad penderfyniad i setlo achos (hyd yn oed os yw'r golled o dan £25,000) ac mae gan y Bwrdd lechyd chwe deg diwrnod gwaith i gyflwyno adroddiad o'r dyddiad hwn ymlaen. Cyflwynir CMR wedyn bedwar mis ar ôl gwneud y taliad olaf ar hawliad, gan nodi sut y penderfynwyd ar y swm, p'un a ddefnyddiwyd awdurdod dirprwyedig ac yn cadarnhau bod uwch arweinwyr wedi cael gwybod am yr hawliadau. Mae angen i'r LfER ddarparu esboniad digonol o amgylchiadau a chefnidir y digwyddiadau sydd wedi arwain at yr achos, er mwyn i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru graffu a nodi'r cysylltiadau â'r canfyddiadau a'r canlyniadau dysgu. Gellir atodi gwybodaeth ategol, fel cynlluniau gweithredu, adroddiadau arbenigwyr a chanfyddiadau adolygiadau i'r LfER fel tystiolaeth o'r gweithgaredd dysgu.

Rhoddir gwybodaeth am ddysgu i'r Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Phrofiadau yn yr Adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion. Mae'r dysgu sylweddol sy'n deillio o hawliadau diweddar yn cynnwys:

- Yn dilyn hawliad lle cafodd y coluddyn niwed yn ystod laparosgopi: Rhaid i bob llawfeddyg sy'n cynnal laparosgopi wirio am unrhyw anaf posibl i organ. Ar ôl i'r laparosgop gael ei gyflwyno drwy'r prif ganiwla, dylid ei gylchdroi drwy 360 gradd i edrych yn weledol am unrhyw goluddyn sy'n glynu. Dylid archwilio'r coluddyn yn ofalus am unrhyw dystiolaeth o waedlif, niwed neu haematoma ôl-berfeddlennol. Os oes pryder y gallai'r coluddyn fod yn glynu o dan y bogail, dylid gweld prif safle'r trocar o safle ail borth, gyda laparosgop 5-mm os oes modd. Ar ôl cwblhau'r driniaeth, dylid defnyddio'r laparosgop i wirio na fu anaf drwy'r coluddyn sy'n glynu o dan y bogail drwy reolaeth weledol yn ystod y broses o'i dynnu.
- Yn dilyn hawliad lle methwyd â rhoi diagnosis o lid yr ymennydd niwmococol: Bellach, dim ond drwy Borth Clinigol Cymru y mae profion gwaed o'r Adrannau Brys yn cael eu harchebu a'u hadolygu'n electronig. Mae hyn yn darparu trywydd archwilio llawn o bwy a archebodd, a phwy a adolygodd y canlyniadau. Mae'r Adran Frys yn rhoi cyfarwyddyd na ddylid rhyddhau unrhyw glaf hyd nes y ceir canlyniadau'r ymchwiliad. Yn lle hynny, gellir derbyn cleifion i uned Arsylwi'r Adran Frys nes bydd y canlyniadau wedi cyrraedd os mai'r disgwyl yw y caiff ei ryddhau. Ar ben hynny, bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, bydd ymgynghorydd o'r Adran Frys yn cynnal adolygiad o ganlyniadau ymchwiliadau y 24 awr blaenorol (neu 48 awr dros y penwythnos). Allbrintiau papur yw'r rhain o'r holl brofion gwaed, ymchwiliadau microbioleg a radioleg a archebwyd drwy'r Adran Frys. Gellir tynnu sylw at unrhyw ganlyniadau anarferol iawn drwy adolygu nodiadau'r achos a dychwelyd cleifion i'r Adran Frys os oes angen.

Rheoleiddio

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n arolygu'r GIG yng Nghymru. Mae AGIC yn asesu cydymffurfriad yn erbyn Safonau Iechyd a Gofal 2015. Mae ganddi gyfrifoldeb penodol hefyd i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael gofal da mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Yn ystod mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022 cafwyd tri archwiliad fel a ganlyn:

- Ward Foelas, Bryn y Neuadd, Chwefror 2022
- Adran Achosion Brys, Ysbyty Gwynedd, Chwefror 2022
- Adran Achosion Brys, Ysbyty Glan Clwyd, Mawrth 2022

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond adroddiad arolygu Adran Frys Ysbyty Gwynedd oedd wedi'i gwblhau. Canfu'r arolygiad hwn nifer o faterion a oedd yn peri pryder gan gynnwys:

- Goruchwyllo'r ystafell aros
- Cofnodi'n gyson a chymryd camau mewn perthynas â sgoriau rhybudd cynnar
- Oedi wrth drosglwyddo
- Prosesau rhyddhau.

Cyflwynwyd cynllun gweithredu mewn ymateb i'r pwyntiau hyn a chyflwynwyd papur gan AGIC i'r Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Phrofiadau ar 03 Mai 2022 gyda chrynodeb o'r sefyllfa. Mae 17 o gamau gweithredu wedi'u cyflawni, mae 4 cam gweithredu ar waith ac mae 8 cam yn hwyr (mae'r rhain yn cael eu symud ymlaen yn ddygn).

Mae'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn parhau i gofnodi'r holl gamau gweithredu sy'n deillio o arolygiadau mewn cronfa ddata ac yn casglu tystiolaeth gan wasanaethau i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cwblhau.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o wybodaeth allweddol yn ymwneud ag ansawdd rhwng misoedd Chwefror a Mawrth 2022. Nod yr adroddiad newydd hwn yw rhoi uchafbwyntiau ansawdd allweddol i'r Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod.

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

Mae gwybodaeth fanwl am dueddiadau, themâu, dysgu a gwella yn cael ei darparu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn yr Adroddiad Diogelwch Cleifion a'r Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr. O'r herwydd, ymdrechwyd i osgoi dyblygu ac i gadw'r adroddiad hwn yn adroddiad amlygu.